- Cynhyrchwyd astudiaethau achos y sector, taflenni ffeithiau a chardiau post er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Roedd y rhain hefyd yn ffurfio rhan annatod o'r 'graффeg gwybodaeth'.

Dogfennau Cyfathrebu Ysgrifenedig

Cafodd cyfanswm o 506 o bobl eu gwneud yn uniongyrchol ymwybodol o'r ymgynghoriad a'u gwahodd i weithdai a chyfarfodydd trwy gyfrwng ein gwahoddiadau drwy'r post. Cafodd ein rhestr wreiddiol o randdeiliaid oedd yn cynnwys 270 o gysylltiadau ei datblygu yn ystod yr ymgynghoriad i gynnwys pawb oedd wedi mynegi diddordeb yn yr ymgynghoriad a'r rhai oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd a digwyddiadau gafodd eu trefnu. Mae hwn yn esblygu'n barhaus a bydd yn chwarae rhan bwysig yng ngweithredu'r Cynllun cyntaf.

Anfonwyd y defnyddiau canlynol hefyd:

	Y deunydd a anfonwyd	Y nifer a anfonwyd
Llyfrgelloedd cyhoeddus	Cynllun Drafft	12
Swyddfeydd Awdurdodau Lleol	Cynllun Drafft	12
Swyddfeydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol	Cynllun Drafft	3
Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol yn cynrychioli etholaethau Cymreig, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cynllunio ar gyfer pob awdurdod lleol Cymreig	Llythyr ymgynghorol	192

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 32 o gyfarfodydd sector, a cheir manylion a deilliannau'r rhain yn Atodiad 1.

Digwyddiadau a Gweithdai

Cynhaliwyd 7 digwyddiad ymgynghori allweddol ledled Gorllewin Cymru, a cheir crynodeb ohonyn nhw isod.

- Lansiodd yr ymgyrch ymgynghori 'Dyfroedd Byw i Gymru' ar 8 Ionawr 2009 gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaldwyedd a Thai, Jane Davidson. Denodd y

lansiad yma sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau (BBC Wales Today, S4C Newyddion, Radio Cymru, ac yn y blaen).

- Cynhaliodd Canolfan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt yng Nghilgerran lansiad y Cynllun Rheoli Basn Afon Drafft ar gyfer Gorllewin Cymru.
- Cynhaliwyd gweithdai ymgynghori yn Abertawe ar 17 Ebrill 2009. Roedd y gweithdai'n cynnig trosolwg o Gynllunio Rheoli Basn Afon ac yn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.
- Trefnodd Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru weithdy ar 5 Mai 2009, gyda sefydliadau ymchwil a phrifysgolion yn bresennol. Bu'r gweithdy hwn yn trafod sut y gellir defnyddio ymchwil gwyddonol i ddelio â phwysau ar yr amgylchedd dŵr, a beth fyddai'r ffordd orau o ddatblygu gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.
- Ar 5 Mai, trefnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru weithdy ymgynghori a gefnogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd hwn yn canolbwyntio ar helpu Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol i ddatblygu ymateb i'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft.
- Ar 27 Mai 2009, cynhaliwyd gweithdy amaethyddol yn Fferm Coleg Gelli Aur, Llandeilo i drafod problemau rheoli tir gan gynnwys defnydd trochi defaid, rheoli maetholion a rheoli pridd. Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'n negeseuon ar broblemau llygredd gwasgaredig ymhlith y gymuned ffermio ehangach.
- Cynhaliodd Afonydd Cymru gyfres o weithdai ar draws Cymru a chynhaliwyd gweithdy yn Llandysul ar 11 Mehefin 2009 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad yn y camau olaf. Roedd y gweithdy'n manylu ar broses i hyrwyddo ymatebion lleol i'r Cynlluniau gan helpu nodi problemau lleol ac atebion posibl.

Mynychodd cyfanswm o 302 o gynrychiolwyr y lansiadau, y gweithdai a'r cyfarfodydd. Ceir manylion yn Atodiad 1. Mae adroddiadau ar allbynnau'r gweithdai ar gael yn ôl y gofyn.

2 Rhestr o ymatebwyr


Mae'r tabl isod un dangos pa sefydliadau/ meysydd o ddiddordeb a ymatebodd. Hefyd cawsom adborth gwerth chweil gan ein Paneli Cyswllt (a'u cysylltiadau yn y Sectorau), gweithdai, digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae gwarchod data yn rhwystro enwi unigolion sydd heb roi caniatâd i'w manylion gael eu gwneud yn gyhoeddus. Mae copi o'r ymatebion ar gael os gwneir cais.

Sefydliad	
Partneriaeth Afon Barlwyd	Loweswater Care Project
Afonydd Cymru	Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth
Angling Trust	N Power
Associated British Ports	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Association of Electricity Producers	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Talbot
British Association for Shooting	Cyngor Tref Rhymni Newydd
British Dragonfly Society	Undeb Amaethwyr Cenedlaethol Cymru
British Geological Survey	Non Ferrous Alliance
British Hydropower Assoc	Ofwat
British Marine Aggregate Producers Assoc.	Cymdeithas Bysgota Ogwr
British Marine Federation	Cymdeithas Bysgota Sir Benfro
British Waterways	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Campaign for the Protection of Welsh Fisheries	Cyngor Sir Benfro
Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
Cyngor Sir Ceredigion	Cymdeithas Bysgota Pontardawe ac Abertawe
Chemical Industries Association	Cyf
Dinas a Sir Abertawe	Cyngor Sir Powys
Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd a Chonwy	Riverfly Partnership
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau	Royal Yachting Association
Clwyd	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Yr Awdurdod Glo	Cymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Sea Fish Industry Authority
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Shellfish Assoc of GB
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2 ymateb)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2 ymateb)
Countryside Land and Business Assoc	Ymddiriedolaeth Afonydd Teifi
Prifysgol Cranfield	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Y Gymdeithas Gwarchod Cnydau	Water UK
Clwb Pysgota Dinbych a Chlwyd (2 ymateb)	Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaeth Cymru
Cyngor Sir Ddinbych	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dŵr Cymru Welsh Water	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth
Undeb Amaethwyr Cymru	Cynulliad Cymru
Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru	Wild Trout Trust
Comisiwn Coedwigaeth	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
Gloucester Angling Club	Coed Cadw
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol	WWF
Aelodau o'r cyhoedd (23)	Cyfanswm = 97
National Responses: Y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Afon, Glasbrint ar gyfer Dŵr, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ac United Kindom Major Ports Group Ltd , Dŵr Prydain, Buglife, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Y Comisiwn Diwydiannau Amgylcheddol, Cysylltu'r Amgylchedd Ag Amaeth a'r Grŵp Cynghori Ar Ffermio A Bywyd Gwyllt, Ffederasiwn Cenedlaethol y Pysgotwyr	

Cofnodwyd yr ymatebwyr o dan y sectorau roeddynt yn eu cynrychioli, sef:

- Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig
- Genweirio, pysgodfeydd a chadwraeth
- Busnes a diwydiant
- Llywodraeth Ganol
- Llywodraeth Leol
- Mwyngloddio a Chwareli
- Mordwyo
- Arall
- Cyhoeddus
- Hamdden
- Y Diwydiant Dŵr

Mae'r ffigwr isod yn dangos cyfran, yn ôl sector, o'r ymatebion a dderbyniwyd.



3 Y nifer a'r mathau o ymatebion

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i alluogi sefydliadau ac unigolion i gyflwyno eu sylwadau ar y Cynllun Rheoli Basn Afon. Caiff y rhain eu disgrifio isod:

System ar-lein

Roedd holiadur electronig ar gael ar-lein gyda'r brif ddogfen ymgynghori, yr atodiadau a gwybodaeth cefnogi pellach. Fe dderbynion ni 15 o ymatebion ar y system ar-lein.

Ymatebion drwy e-byst a llythyrau

Fe dderbynion ni 53 o ymatebion ar e-bost (roedd 2 o'r rhain trwy'n hymgyrch 'Ein Hafonydd', a sefydlwyd gan sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol fis Ebrill 2009. Roedd yna 44 ymateb trwy lythyr gan gynnwys 1 ymateb yn y Gymraeg. Roedd nifer o'r ymatebion yma ar ran aelodau sefydliadau cynrychioladol. Roedd rhai ymatebion yn dilyn y cwestiynau gosod a ofynnwyd yn y brif ddogfen ymgynghori ac roedd eraill yn dewis canolbwyntio ar y meysydd oedd yn bwysig iddyn nhw.

Ymholiadau am yr Ymgynghoriad

Cafwyd 55 o ymholiadau ar e-bost ynghylch yr ymgynghoriad. Fe atebon ni'r rhain i helpu'r rhanddeiliad ddeall y cynllun drafft yn well.

Gweithdai Lleol

Roedd gweithdai'n rhan hanfodol o'n rhaglen i gynnwys cyd-gyfranwyr mewn rheoli basn afon. Roedd y gweithdai'n cynnig trosolwg i gynulleidfa leol o Reoli Basn Afon. Roedd pecynnau briffio'n amlinellu'r pwysau ar Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a sut, drwy weithio gyda'n gilydd y gellid cyflawni'r Cynllun Basn Afon. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried a oedden nhw'n cytuno gyda'r materion a nodwyd a'r hyn gaiff ei gynnig i ddelio â'r rhain. Yn bwysig, gofynnwyd i gynrychiolwyr a oedd yna fylchau lleol yn y Cynllun drafft.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol gyflwyno ymatebion ar wahân i'r ymgynghoriad wedi eu seilio ar drafodaethau yn y gweithdai. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd sicrwydd y byddai'r holl adborth a'r sylwadau a gasglwyd yn ystod y dydd hefyd yn cael eu defnyddio i ddiweddarw Cynllun Rheoli Basn Afon Cymru a chefnogi ei ddarparu, mae'r sylwadau hyn yn cael eu cynnwys yn Adran 4. Cafodd adroddiadau adborth manwl o'r holl weithdai eu rhannu ymhlith y cynrychiolwyr er mwyn cael eu sylwadau ac maen nhw ar gael os gwneir cais ynghyd â chopïau o'r pecynnau briffio a ddefnyddiwyd. Ceir manylion cysylltu â ni yn Adran 5.

Cyfarfodydd eraill

Mae manylion a deilliannau cyfarfodydd i'w cael yn Atodiad 1.

4 Crynodeb o ymatebion ac o'r hyn y byddwn yn ei wneud

Cafwyd dros 1200 o ymatebion i'r 11 o gynlluniau Ardal Basn Afon yng Nghymru a Lloegr, 97 o'r rhain ynghylch Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Dangosir ar y tudalennau canlynol ein hymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd. Rydym wedi crynhoi'r ymatebion o dan feysydd pwnc ac yn cyflwyno'r gwaith rydym wedi'i wneud neu y byddwn yn ei wneud yn ystod cylch cyntaf y cynllun yn y meysydd pwnc hynny.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn y cwestiynau canlynol.

Mae'r cynllun hwn yn dangos amcanion ar gyfer yr amgylchedd dŵr yn ystod y chwe blynedd nesaf a thu hwnt i hynny. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r hyn y mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni?

10. Ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o'r problemau yn ein cyrff dwr? Beth fydddech chi'n ei newid?
11. Ydych chi'n cytuno â'r amcanion arfaethedig? Beth fydddech chi'n ei newid?
12. Rydym wedi cynnig amcanion ar gyfer rhai cyrff dŵr gyda therfyn amser ar ôl 2015 neu darged cyffredinol is. Ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau hyn? Beth fydddech chi'n ei newid?

Mae'r cynllun hwn yn dangos y gwaith y bydd yn rhaid ei wneud i gyfarfod yr amcanion. I ba raddau ydych chi'n cytuno fod y gweithredoedd cywir wedi'u nodi (gweithredoedd sy'n gymesur ac yn ddichonadwy)?

13. Rydym wedi dilyn proses i asesu (gwerthuso) y gweithredoedd hyn. Disgrifir y broses hon yn fanwl yn Anecs E. Ydych chi'n cytuno gyda'r ffordd rydym wedi gwneud hyn?
14. Pa sylwadau sydd gennych ynghylch y gweithredoedd hyn? A oes yna unrhyw weithredoedd rydym wedi'u gadael allan neu unrhyw newidiadau yr hoffech eu cynnig?

Mae peth gwaith ychwanegol yr hoffem ei wneud petai gennym fwy o sicrwydd y byddai'n effeithiol. Mae'r rhain wedi'u rhestru o dan Senario C ac fe hoffem wybod a allwch chi ein helpu i'w gwireddu?

15. Pa sylwadau sydd gennych ar senario C, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallwch ei roi ynghylch gweithredoedd penodol?
16. Pa gefnogaeth allwch chi ei gynnig, megis gwneud gwaith neu ddarparu adnoddau i'n helpu i wneud mwy dros eich amgylchedd?

Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y cynllun hwn

17. Ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y pwysau ar yr amgylchedd dŵr? Beth fydddech chi'n ei newid?
18. Pa sylwadau eraill sydd gennych chi ar y cynllun hwn?

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiynau hyn fel strwythur i'w hymateb Fodd bynnag, ni wnaeth y rhan fwyaf hynny. Rydym yn cyfeirio at rif y cwestiynau pan fo hynny'n berthnasol, ond nid oedd yn bosibl darparu ystadegau syml ynghylch faint o bobl oedd yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob cwestiwn.

Trosolwg o'r prif broblemau cenedlaethol a nodwyd gan randdeiliaid a'n hymateb.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn hynod o falch o'r diddordeb a ddangoswyd mewn ymgynghori ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft. Roeddem yn falch hefyd o nifer y bobl a ddaeth i'r gwahanol gyfarfodydd a'r trafodaethau a drefnwyd gennym ni a'n cyd ddarparwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Rydym yn gwerthfawrogi fod cynifer o bobl wedi dangos diddordeb yn nyfodol eu hamgylchedd dŵr drwy gymryd yr amser i gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ymgynghoriad Cynllun Rheoli Basn Afon yn gosod nifer o gwestiynau a awgrymwyd gennym ni i helpu'r rhai â diddordeb i ganolbwyntio ar y problemau allweddol. Rydym o'r farn ei fod yn dystiolaeth o'r gofal sydd gan ymatebwyr dros eu hamgylchedd dŵr fod y rhan fwyaf wedi cyflwyno sylwadau ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn hytrach nag ateb y cwestiynau a osodwyd.

Er bod llawer o ymatebwyr yn dweud wrthym ni y byddan nhw'n hoffi gweld newidiadau yn y cynllun drafft roedd mwy o sylwadau mewn gwirionedd yn gwestiynau ynghylch sut y mae'r broses gynllunio'n gweithio a sut y cafodd manylion y cynllun eu datblygu.

Er bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos yma y newidiadau y mae wedi'i wneud o ganlyniad i'r ymatebion, rydym hefyd eisiau cydnabod y dyhead am fwy o wybodaeth gefndir ynghylch nid yn unig cynllun Asiantaeth yr Amgylchedd ond hefyd ynghylch yr hyn sy'n perthyn i gymdeithas gyfan.

Efallai fod hyn wedi golygu fod trafod yr ymatebion wedi cymryd yn hirach nag oeddem wedi'i ragweld. Fel trosolwg byr o'r ymatebion, a sut y gallai'r rhain ddylanwadu ar y cynllun, ceir crynodeb byr o'r prif broblemau fel a ganlyn:-

Pa mor hawdd oedd darllen a deall y Cynlluniau

Ar y lefel strategol y canolbwyntiodd yr ymgynghori ar y cynllun drafft yn bennaf, gan ofyn am sylwadau ar wella cyrff dŵr yn gyffredinol. Rodd llawer o ymatebwyr eisiau cyflwyno sylwadau manwl ar gynigion ar gyfer cyrff dŵr unigol, a gallai fod mwy na mil o'r rheini mewn dosbarth basn afon unigol.

Cafodd y cynlluniau terfynol ei newid yn sylweddol i'w gwneud yn haws i'w ddarllen, cael gwared ar lawer o ailadrodd ond gan ddal i fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan sectorau darparu.

Bydd canolbwynt y gweithgaredd yn troi at lefel y cyrff dŵr pan ddechreu'r gweithredu'r cynllun. Wrth edrych ar gyrff dŵr unigol, bydd yn bosibl cyflwyno gwybodaeth (fel mapiau a data) yn helaethach nag y gellid byth ei wneud mewn Cynllun Rheoli Basn Afon sy'n cynnwys cannoedd o gyrff dŵr.

O fis Rhagfyr 2009 bydd gwell mapiau gwybodaeth lleol ar gael ar adran *What's in Your Back Yard* ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyflwynir gwybodaeth gliriach ynghylch cyrff dŵr unigol erbyn hyn yn yr anecs prif gyrff dŵr (Anecs B) gyda Chyfeirnodau Grid Cenedlaethol i roi ffordd arall o'u canfod.

Uchelgais y canlyniadau amgylcheddol

I ganlyn y cynllun drafft wrth ei ryddhau ar gyfer ymgynghori oedd llythyr a lofnodwyd ar y cyd gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd a oedd yn agored ynghylch y dyhead i gynyddu uchelgais ac yn gofyn i gyd ddarparwyr eraill gyflwyno eu cynigion. Er y nodwyd mentrau lleol defnyddiol, yn anffodus ni chafwyd unrhyw fesurau ychwanegol a oedd yn ddigon mawr i gynyddu dosbarth statws unrhyw gorff dŵr unigol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cynnwys yn y cynllun terfynol botensial llawn y mesurau sydd ar gael. Mae hyn wedi golygu harneisio llawer iawn o wybodaeth leol i ystyried pa mor ddichonadwy oedd gwella ar lefel cyrff dŵr. Mae £10 miliwn yn ychwanegol ar gael gan Defra yn 2009 / 10 sy'n cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau amgylcheddol, rhwystro dirywiad a gosod sylfaeni gwella yn y dyfodol. Yng Nghymru, gwneir defnydd llawn o bob llyf cyllid a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol, megis y cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir sydd ar y gweill, yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y byddant o fantais i wireddu amcanion Cynllun Rheoli Basn Afon

Mae Defra a Llywodraeth y Cynulliad wedi awgrymu ei bod yn bosibl y daw nifer o fesurau ychwanegol ar gael yn ystod cylch cyntaf cynllunio basn afon cyn belled ag y gellir cael y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hydromorffoleg – mae Defra'n gobeithio rhoi hawliau ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd gynnal gwaith i sicrhau fod nodweddion ffisegol cyrff dŵr yn gallu cefnogi'r targed o statws ecolegol. Bydd hyn yn cynnwys gosod dyletswydd ar awdurdodau rheoli peryglon llifogydd ac erydu'r arfordir i ymarfer eu hawliau i fodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Ymgynghorwyd ynghylch y ddwy agwedd wrth ymgynghori ynghylch y Mesur Rheoli Dŵr a Llifogydd gyda mwyafrif helaeth o ymatebwyr o blaid y cynigion. Byddwn hefyd yn newid y Ddeddf Adnoddau Dŵr er mwyn gallu defnyddio Parthau Amddiffyn Dŵr i dalu sylw i bwysau ychwanegol ar amodau hydromorfforegol megis difa cynefinoedd ac ail godi gwaddodion, a allai ddigwydd gyda charthu anaddas. '
- Parthau Amddiffyn Dŵr - Pan nad yw mesurau gwirfoddol yn arwain at y gwelliant angenrheidiol mewn ansawdd dŵr o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, y bwriad yw defnyddio rheoleiddio ar ffurf Parthau Amddiffyn Dŵr. Defnyddir y Parthau i daclo llygredd gwasgaredig amaethyddol ac anamaethyddol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn datblygu safleoedd 'prawf cysyniad' Parthau Amddiffyn Dŵr yn Lloegr. Efallai y bydd neu na fydd y rhain yn datblygu'n Parthau Amddiffyn Dŵr llawn, yn dibynnu ar y dystiolaeth a gesglir. Mae Defra'n rhedeg gweithgor sectorau Parthau Amddiffyn Dŵr gyda rhanddeiliaid allweddol (NFU, Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol, porthladdoedd a mordwyo, awdurdodau lleol, busnesau bychan a chwmnïau dŵr). Bydd y gweithgor yn trafod canllawiau statudol ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n cael eu datblygu gan Defra a'r broses o ddynodi Parthau Amddiffyn Dŵr, y dystiolaeth sydd ei angen, gwybodaeth leol, cyfnod ymgynghori ac Asesiad Effaith. Seilir nifer y Parthau a ddefnyddir ar asesiad o ba effaith a gafodd y mesurau gwirfoddol a'r dystiolaeth sydd ei angen i gyfiawnhau defnyddio Parthau Amddiffyn Dŵr. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghori ar wahân ynghylch canllawiau statudol ar gyfer Cymru bydd yn datblygu canllawiau tebyg ar gyfer y broses ymgeisio ac yn gobeithio datblygu dulliau cyffredin yn ôl y gofyn i symleiddio'r broses ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

- Systemau Draenio Cynaliadwy – Mae cynnig yn ymgynghoriad ynghylch y Mesur Rheoli Dŵr a Llifogydd y dylai pob datblygiad ac ailddatblygiad newydd (tai a masnachol) gynnwys systemau draenio cynaliadwy ar gyfer rheoli dŵr wyneb. Mae systemau draenio cynaliadwy'n efelychu draenio naturiol ac o gymorth i reoli peryglon llifogydd dŵr wyneb yn ogystal â gwella ansawdd dŵr drwy ei hidlo'n naturiol, ac yn gwella mwynderau. Bydd datblygwyr yn gofyn am gymeradwyaeth i'w systemau draenio gan gymeradwywr a fydd yn sicrhau ei bod yn cyfarfod â nifer o Safonau Cenedlaethol cyn y rhoddir caniatâd i gysylltu i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun. Yna bydd draeniau wedi'u hadeiladu i Safonau Cenedlaethol Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu mabwysiadu gan y corff cymeradwyo ac yn cael eu cynnal yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Os bydd y mesur yn cael ei gymeradwyo disgwylir y daw deddfwriaeth systemau draenion cynaliadwy i rym yn 2011.
- Camgysylltiadau - Ceir camgysylltiadau pan fydd peipen ddraenio yn cael ei chysylltu â'r garthffos anghywir, er enghraifft pan fydd draen dŵr budur yn cael ei chysylltu â charthffos dŵr wyneb neu ddraen dŵr wyneb yn gollwng i garthffos dŵr budur. Gall camgysylltiadau orlwytho systemau draenio ac achosi llygredd. Mae Defra'n amcangyfrif fod, yn Lloegr, 300,000 o gartrefi gyda chamgysylltiadau ar hyn o bryd, bydd hyn yn codi i 500,000 erbyn 2015. Ar hyn o bryd, dim ond awdurdodau lleol all gywiro camgysylltiadau, mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gysylltu gydag awdurdodau lleol i wella'r camgysylltiadau y maent wedi eu canfod. Roedd ymgynghoriad y Mesur Rheoli Dŵr a Llifogydd yn cynnig y dylai cwmnïau carthffosiaeth gael yr un hawliau ag awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn haws ac yn rhatach cywiro camgysylltiadau. Os bydd y mesur yn cael ei gymeradwyo, disgwylir y cyflwynir cymal camgysylltiadau yn 2011.
- Ffosffadau mewn Glanedyddion Golchi Domestig - mae Defra'n cynnig gwahardd gwerthu glanedyddion golchi domestig yn cynnwys mwy na 0.4% o ffosffadau. Mae ffosffadau'n achosi gorfaetholi a byddai gwaharddiad yn gam pwysig mewn gwella ansawdd dŵr drwy ostwng llygredd ffosffadau yn ei darddiad, gan gefnogi'r egwyddor 'yr hwn sy'n llygru sy'n talu'. Cafodd gwaharddiad gefnogaeth eang gan ddiwydiant gan ei fod yn gwastadhau'r cae chwarae. Os cyflwynir gwaharddiad, mae Defra'n gobeithio y daw i rym yn 2015 a fydd yn rhoi digon o amser i ddiwydiant addasu prosesau.

Nid yw wedi bod yn bosibl gwerthuso effaith y mesurau hyn ar lefel cyrff dŵr ond, ar raddfa dosbarth basn afon, cafodd amcangyfrif o'r gwelliant y gellid ei weld ledled yr Ardal Basn Afon ei gynnwys.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu'r cynllun ar lefel dalgylch. Archwilir nifer o ddulliau o weithio gyda chyd-ddarparwyr a rhanddeiliaid lleol ond disgwylir, drwy gydweithio gyda phob cyd-ddarparwydd a'r sectorau a fydd yn cymryd rhan ac o ystyried y dalgylch yn ei gyfanrwydd, mai'r dyhead yn y pen draw yw yr eir y tu hwnt i'r uchelgais o'i gynnwys y cynllun cyntaf yn hydref 2009.

Cyfran uchel o waith y diwydiant dŵr

Nid yw Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu cyfyngu i fesurau sy'n deillio o ofynion newydd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Gan gasglu ynghyd holl ymdrechion gwella amgylchedd dŵr yn ystod y chwe blynedd nesaf, byddant hefyd yn cynnwys y gwelliannau arwyddocaol sy'n codi o ofynion y Cyfarwydddebau sy'n bodoli eisoes. Roedd y Cyfarwydddebau blaenorol yn anelu lawer iawn at drin gollyngiadau pwyntiau unigol sy'n gyfrifoldeb cwmnïau dŵr yn bennaf. Un o'r pethau sydd fwyaf o angen sylw, i symud mwy o gwmnïau dŵr i lwyddo i gael Statws Ecolegol Da, yw ffosffad ac,

unwaith eto, mae gollyngiadau cwmnïau dŵr yn ffynhonnell bwysig. Mae'r cyfuniad hwn o waith sydd ei angen i wireddu ymrwymïadau'r hen Gyfarwydddebau, a gollyngiadau ffosffad o systemau carthffosiaeth, yn egluro'r cyfraniad mawr sydd ei angen gan y cwmnïau dŵr yn y cylch cyntaf.

Mae yna, wrth gwrs, ffynonellau eraill o lygredd megis cemegolion amaethyddol. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gymuned amaethyddol i dalu sylw i'r problemau hyn.

Mae metelau, gan gynnwys cadmiwm, plwm, sinc, copr a haearn yn effeithio ar ein hamgylchedd dŵr o dreftadaeth ddiwydiannol o weithgaredd cloddio am fwynau. Mae Strategaeth Metelau Pyllau Cymru'n ymchwilio ac yn asesu'r dewisiadau ar gyfer adfer pyllau mwynau. Bydd rhaglen yr Awdurdod Glo ar gyfer ymchwilio ac adfer yn dal i daclo problemau llygredd o'n gorffennol cloddio am lo.

Gyda'r sylwadau rhagarweiniol hyn, rydym yn awr yn archwilio'r ymatebion yn fanylach.

4.1 Egwyddorion a chyfeiriad cyffredinol

Roedd cefnogaeth gyffredinol i amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac i'r hyn y maen nhw'n ceisio llwyddo i'w gael.

Roedd cydnabyddiaeth o gymaint o waith oedd paratoi'r cynllun drafft a chanmolïaeth i ymdrechion Asiantaeth yr Amgylchedd yn yr ardal basn afon i drafod gyda rhanddeiliaid.

4.2 Cyflwyniad a strwythur

4.2.1 Pa mor hawdd oedd darllen y cynlluniau

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd croeso cyffredinol i'r brif ddogfen ond roedd pryder ynghylch ei bod yn anodd deall yr anecsau a'r iaith dechnegol a'r byrfoddau a ddefnyddid. Y pryder oedd, er bod o angenrheidrwydd lawer o fanylion yno, nad oedd yn hawdd canfod yr wybodaeth fwyaf perthnasol, yn enwedig yn lleol. Gofynnodd rhai yr ymgynghorwyd â nhw am gynllun byrrach, haws ei drin. Gofynnodd rhai eraill am ragor o wybodaeth.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnodd y rhai a ymatebodd am fwy o ddiagramau a thablau i egluro'r ystadegau yn y brif ddogfen. Gofynnwyd yn benodol am wybodaeth ynghylch prif achos methu â chyrraedd statws da a'r mesurau allweddol a gynigir i dalu sylw i hynny. Nodwyd hefyd bod angen dangos y gwelliannau a fydd yn digwydd i elfennau penodol pan geir 'statws da'.

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon Drafft yn dangos agwedd strategol at wella'r amgylchedd ar raddfa ardal basn afon ac yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel fanylach cyrff dŵr. Roedd hon yn dasg anodd. Roedd ymgynghori ar y cynllun drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar y lefel strategol ac yn gofyn am sylwadau ar wella cyrff dŵr yn gyffredinol. Rodd llawer o ymatebwyr eisiau cyflwyno sylwadau manwl a chynigion ar gyfer cyrff dŵr unigol a gallai fod mwy na mil o'r rheini mewn dosbarth basn afon unigol.

Mewn ymateb i'r ymgynghori cafodd y cynllun terfynol ei newid yn sylweddol i'w gwneud yn haws i'w ddarllen, cael gwared ar lawer o ailadrodd ond gan ddal i fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwyllir gan bob sector. Rydym wedi dangos y gwelliannau'n gliriach ac yn amlycach yn y ddogfen ac wedi defnyddio byrfoddau'n gallach.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi ymestyn disgrifiad y problemau ac wedi amlinellu atebion ar raddfa dalgylch. Mae hyn yn egluro'r hyn a fydd yn cael ei

gyflawni, beth yw'r problemau, eu hachosion a'u ffynonellau, yr atebion ymarferol a'r heriau a fydd yn dal yno mewn cylchoedd dilynol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnwyd am negeseuon penawdau yn nhestun y brif ddogfen ynghylch costau a buddion.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd ymatebwyr yn aml yn nodi cynlluniau a phrosesau eraill a allai fod o gymorth i wella dyfroedd ac yn gofyn am fwy o eglurhad ar y berthynas gyda chynllunio rheoli basn afon.

Rydym wedi cynnwys adran fer yn y brif ddogfen o'r enw 'costau a buddion gweithredu'. Ceir dadansoddiad manylach yn yr Asesiad Effaith Terfynol sydd ar gael gyda'r cynllun.

Rydym wedi creu Anecs newydd (Anecs J) sy'n nodi ym mhle a sut y mae polisïau, prosesau cynllunio, prosesau rheoli, rhaglenni, mentrau a dulliau perthnasol yn cael eu cyfuno i sicrhau canlyniadau mwy cynaliadwy ar gyfer yr amgylchedd dŵr. Mae rhai o brif negeseuon yr Anecs hwn hefyd wedi'i gynnwys yn y brif ddogfen.

4.2.2 Pa mor hawdd yw cael gwybodaeth ar lefel corff dŵr

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Dywedodd sawl ymatebydd ei bod yn anodd cael gafael ar wybodaeth a data, yn enwedig ar lefel corff dŵr.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlai rhai ei bod yn rhy anodd defnyddio'r teclyn 'What's In Your Backyard' a ddefnyddid i helpu ymatebwyr i gael gwybodaeth ar lefel corff dŵr ac nad oedd yn cynnwys yr un data ag yn Anecs B ar gyfer pob corff dŵr.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Cafwyd sylwadau ynghylch y mapiau yn Anecs B. Teimlid nad oedd y rhain yn ddigon manwl i fod yn sicr lle'r oedd rhai cyrff dŵr.

Gallai'r ymdrech i roi cymaint o wybodaeth gefndir ar y cynllun (yn ôl gofyn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ei hunan) fod wedi drysu darllenwyr. Cyflwynwyd gwybodaeth fanwl ynghylch cyrff dŵr mewn nifer o Anecsau ac mae diffyg cyswllt rhwng yr Anecsau yn sylw cyffredin gan ymatebwyr. Cyflwynir gwybodaeth gliriach ynghylch cyrff dŵr unigol erbyn hyn yn yr anecs prif gyrff dŵr (Anecs B) gyda Chyfeirnodau Grid Cenedlaethol i roi ffordd arall o fynd trwy dablau Anecs B. Pan gyhoeddir y cynlluniau gyntaf fis Rhagfyr 2009 byddwn wedi newid trefn y tablau cyrff dŵr yn Anecs B fel y bydd cyrff dŵr cyfagos yn ymddangos ger ei gilydd, hyd y bo modd. Erbyn hyn hefyd mae gwell cysylltiadau rhwng yr Anecsau a mwy o wybodaeth ynghylch y rhesymau dros benderfyniadau (yn enwedig y dewis o bolisïau amgen sy'n cael eu dangos mewn Anecs E hollol newydd).

Mae'r gallu i gysylltu gwybodaeth yn y cynllun a'i Anecsau gyda gwybodaeth ar fapiau wedi bod yn drafodaeth gyson gydol cynhyrchu ac ymgynghori ynghylch y cynllun drafft. Rydym wedi rhyddhau rhagor o wybodaeth geo-ofodol i gyd ddarparwyr nag oedd ar gael ar ddechrau'r ymgynghoriad. Bydd gwybodaeth map rhyngweithiol ar gyfer y cyhoedd yn dal ar gael ar adran 'What's in Your Back Yard' gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym wedi sylweddoli mor anodd yw dehongli gwybodaeth ynghylch cyrff dŵr yn y system oherwydd cyflwyniad yr wybodaeth gefndir ar y map. Byddwn yn gwella ymddangosiad yr wybodaeth Rheoli Basn Afon pan fydd 'What's in Your Back Yard' yn cael ei diweddarw fis Rhagfyr 2009.

Bydd canolbwynt y gweithgaredd yn troi at lefel cyrff dŵr pan ddechreuir gweithredu'r cynllun. Wrth edrych ar gorff dŵr unigol, bydd yn bosibl cyflwyno gwybodaeth (fel map a data) yn helaethach nag y gellid byth ei wneud mewn Cynllun Rheoli Basn Afon yn cynnwys cannoedd o gyrff dŵr.

Ar gyfer y rhai sy'n brofiadol mewn trin data, bydd gwybodaeth fanylach ar daenlenni ar gael i'w llawr lwytho o wefan Asiantaeth yr Amgylchedd pan gyhoeddir y cynllun fis Rhagfyr 2009. Hefyd fis Rhagfyr, bydd hyperddolenni yn ei gwneud yn haws symud drwy'r cynlluniau a gyhoeddir ar lein.

4.3 Amcanion ac uchelgeisiau

4.3.1 Uchelgais

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno ag ac yn cefnogi'r amcanion arfaethedig a mynd ati bob yn gam at 2027.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai eraill o'r farn y byddai'r cynnydd at 2015 yn rhy araf i fod yn hyderus y byddai targedau 2027 yn cael eu cyfarfod. Roedden nhw o'r farn nad oedd targedau 2015 yn uchelgeisiol ac yn bryderus sut y byddai targedau'r ail a'r trydydd cylch yn cael eu cyfarfod. Byddai hyn yn creu dechreuad araf a fyddai'n golygu na fyddai rhai rhaglenni'n cael eu darparu e.e. gwella dŵr pyllau mwyn.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Pryder na fwriedir gwneud unrhyw waith ar Afon Ogwr tan ddiwedd 2007

Pan gafodd y cynllun drafft ei ryddhau ar gyfer ymgynghori roedd llythyr i'w ganlyn a lofnodwyd ar y cyd gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd a oedd yn agored ynghylch y dyhead i gynyddu uchelgais ac yn gofyn i gyd ddarparwyr eraill gyflwyno eu cynigion. Er y nodwyd mentrau lleol defnyddiol ni ddatgelodd yr ymgynghoriad unrhyw fesurau ychwanegol a fyddai'n ddigon arwyddocaol i wella uchelgais ar raddfa cyrff dŵr, dalgylchoedd, ardaloedd nac yn genedlaethol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cynnwys yn y cynllun potensial llawn y mesurau sydd ar gael. Mae hyn wedi golygu harneisio llawer iawn o wybodaeth leol i ganfod gwelliannau ar lefel cyrff dŵr.

Mae gwaith pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori chwe mis ar y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth neu bartïon eraill i ddarparu

- Parthau Amddiffyn Dŵr yn Lloegr;
- prosiectau i drin rhywogaethau ymwithiol anfrodorol;
- hyrwyddo ymarfer gorau ar gyfer defnyddio, gwaredu a thrin paleiddiaid;
- rhaglen ehangach o ymgyrchoedd a gwaith gorfodi rhwystro llygredd;
- mae rhaglen ehangach o weithredu ymarfer gorau ac adfer pyllau mwynau metel ar y gweill ar hyn o bryd yn cael ei chyllido gan Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Drwy weithio gyda Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, nodwyd mesurau sydd erbyn hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun i sicrhau y cyrhaeddir amcanion Ardaloedd Gwarchodedig Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ddibynnol ar ddŵr ac a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar).

Mewn cydweithrediad gyda'r Arolygaeth Dŵr Yfed a chwmnïau dŵr, mae mesurau ac ymchwiliadau pellach wedi'u cynnwys erbyn hyn yn y cynllun ar gyfer Ardaloedd Gwarchod Dŵr Yfed.

Mae Defra wedi rhoi £10 miliwn ychwanegol ar gyfer 2009 / 10, yn bennaf ar gyfer gwella canlyniadau amgylcheddol yn Lloegr. Yng Nghymru, defnyddir i'r eithaf pob llif

cyllid a geir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd cynlluniau pellach, megis y cynllun Glastir sydd ar ddod yng Nghymru, yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gwiredir buddion llawn ar gyfer cyrraedd amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon.

Bydd Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd, yn dal i ddatblygu a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu mesurau addas ychwanegol ar ôl cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun Rheoli Basn Afon.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain y cynllun ar lefel dalgylch. Archwilir nifer o ffyrdd o weithio gyda chyd-ddarparwyr a rhanddeiliaid lleol. Drwy gydweithio, gobeithir yr eir y tu hwnt i uchelgais y cynllun.

Bydd yr wybodaeth a gasglwyd wrth baratoi'r cynllun cyntaf, yn ogystal â chanlyniadau'r ymchwiliadau a gynhelir yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn sylfaen ragorol ar gyfer cynllunio a chynnwys gwelliannau pellach mewn cylchoedd i ddod.

Mae Anecs E y cynllun yn cynnwys gwybodaeth ynghylch mesurau pellach y gallai fod yn bosibl eu sefydlu yn ystod y cylch cyntaf neu yn ystod cylchoedd 2 a 3. Bydd yn rhaid talu sylw mewn cynlluniau dilynol i'r problemau na ellir gwneud llawer yn eu cylch ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu rhoi rhagor o bwyslais ar dalu sylw i broblem llygredd gwasgaredig trefol ac amaethyddol ac adfer yn ffisegol gynefin amgylchedd y dŵr.

O gofio cymaint o waith gwella sydd ei angen, a'r pwysau cymhleth a hirhoedlog sydd ar amgylchedd dŵr, ni fydd yn bosibl i rai cyrff dŵr gyrraedd statws da erbyn 2027. Allwn ni ddim nodi'r cyrff dŵr penodol hynny eto, ond bydd gofyn gwneud rhagor o ddefnydd o hyblygrwydd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr i osod amcanion llai caeth.

Yn fwy lleol, bydd gwaith i wella ansawdd ecolegol afon Ogwr yn y cylch cyntaf yn cynnwys rhaglen o waith ymchwil maes ac ymweliadau rhwystro llygredd â chyrff dŵr sy'n methu mewn mannau gwledig a threfol ger dyfroedd nofio sy'n methu. Yr amcan fydd canfod ffynonellau llygryddion a datrys problemau sy'n bygwth statws ecolegol a chydymffurfiaid dŵr ymdrochi. Bydd pysgodfeydd yn cael eu gwella drwy gael gwared ar rwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo a gwaith gwella cynefinoedd gan gynnwys strategaeth i leihau effaith asideiddio.

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Cefnogwyd cynnwys amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn nhargedau Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus a gofynnwyd am eglurhad a oedd hyn yn symud ymlaen.

Mae'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus presennol (PSA 28), sy'n rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2011, yn cynnwys dangosydd pennawd ansawdd dŵr. Llwyddiant yn ystod y cyfnod Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn gynydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ansawdd biolegol ac yn welliant blwyddyn ar ôl blwyddyn yn nhueddiad ansawdd cemegol afonydd sy'n cael ei adrodd yn Asesiad Ansawdd Cyffredinol Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hefyd yn cynnwys dirprwy ddangosydd o nifer y cyrff dŵr sy'n llwyddo i gyrraedd Statws Ecolegol Da. Bydd angen adolygu hyn o ganlyniad i ddiweddarau data dosbarthiad 2009. Nid yw trafodaethau ynghylch dyfodol dangosyddion Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn yr adolygiad gwariant nesaf nac asesiadau Asesiad Ansawdd Cyffredinol fel dangosydd pennawd wedi dechrau eto ac ni ellir, felly, gadarnhau mesur targed newydd ar hyn o bryd.

Mae'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus presennol (PSA 28), sy'n rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2011, yn cynnwys dangosydd pennawd ansawdd dŵr. Mae hyn yn gynydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ansawdd biolegol ac yn welliant blwyddyn ar ôl blwyddyn yn nhueddiad ansawdd cemegol afonydd sy'n cael ei adrodd yn Asesiad

Ansawdd Cyffredinol Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hefyd yn cynnwys dirprwy ddangosydd ynghylch nifer y cyrff dwr sy'n llwyddo i gyrraedd Statws Ecolegol Da. Bydd hyn yn cael ei adolygu hyn o ganlyniad i ddata dosbarthu 2009. Nid yw trafodaethau ynghylch dyfodol dangosyddion Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn yr adolygiad gwariant nesaf nac asesiadau Asesiad Ansawdd Cyffredinol fel dangosydd pennawd wedi dechrau eto ac ni ellir, felly, gadarnhau mesur targed newydd ar hyn o bryd.

4.3.2 Amcanion a mesurau ardaloedd gwarchodedig

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd ymatebwyr yn bryderus nad oedd rhai amcanion a mesurau'r ardaloedd gwarchodedig (Natura 2000 ac Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed) wedi'u cyfuno'n llawn yn y cynllun hyd yma.

Mae disgrifiad clir o'r rhyngberthynas rhwng amcanion "Statws Cadwraeth Ffatriol" Natura 2000 ac amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr wedi'i gynnwys erbyn hyn yn Anecsau B a D. Mae'r mesurau sydd wedi'u datblygu gan Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, a fydd yn eu darparu ac yn eu goruchwyllo, i'w cael erbyn hyn yn Anecsau C a D.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd asesiad risg o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed. Roedd yr asesiad risg yn defnyddio gwybodaeth o ddata'r cwmnïau dŵr, gan gynnwys gwybodaeth o ddatganiadau'r Arolygaeth Dŵr Yfed. Ble bo digon o hyder y gallai fod dirywiad, mae mesurau wedi'u cynnig ac i'w gweld yn Anecsau C a D. Ble bo perygl wedi'i nodi ond bod hyder yn isel, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro ac yn ymchwilio ymhellach ac yn cynnig mesurau os bydd yn bosibl cadarnhau'r perygl o ddirywiad.

4.3.3 Penderfyniadau ar gyfer amcanion amgen

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnodd rhai ymatebion am well cyfiawnhad dros ymestyn y terfyn amser o 2015. Roeddynt yn teimlo fod diffyg tryloywder yn y cynllun ynghylch pam y cyflwynwyd cais am estyniadau (amcanion amgen)

Yn Asiantaeth yr Amgylchedd rydym yn derbyn fod diffyg clirdeb a thryloywder yn y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft ynghylch y penderfyniadau a gymerwyd wrth osod amcanion amgen ar gyfer cyrff dŵr.

Ar gyfer y Cynllun Rheoli Basn Afon Cyntaf rydym wedi:

- gosod y broses allan yn gliriach ar gyfer gosod amcanion amgen yn Anecs E;
- rhoi rhagor o wybodaeth dros y rheswm am fethu sydd wedi arwain at osod o amcan amgen;
- darparu rhagor o wybodaeth ar ba fath o weithredu a fydd yn codi o osod yr amcan amgen (e.e. ymchwilio i nodi mesurau priodol ar gyfer cylchoedd y dyfodol);
- darparu rhagor o wybodaeth ar y math o fesurau y gellid eu defnyddio i ateb y broblem yn y dyfodol;
- darparu cyswllt clir rhwng pob elfen mewn cyrff dŵr nad ydynt yn 'dda' erbyn 2015 yn nhabl Anecs B a disgrifio yn Anecs E y broses o benderfynu, y rhesymau dros y methiant, mathau o ymchwilio a mesur arfaethedig ar gyfer y dyfodol.
- darparu gwybodaeth yn Anecs D ar werthusiad a'r cyfiawnhad dros yr amcanion amgen a osodwyd ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Wyneb Dŵr Yfed ac Ardaloedd Gwarchodedig Natura 2000 .

4.4 Asesiad o Broblemau a Phwysau

Roedd y prif sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr ar yr asesiad o broblemau a phwysau'n cynnwys y rhychwant o bwysau sy'n cael eu trafod, y safonau a ddefnyddiwyd, ansicrwydd ynghylch dosraniad ffynonellau a mynediad at ddata a gwybodaeth.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd amrywiaeth o sylwadau ynghylch yr asesiad o broblemau mewn cyrff dŵr. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno gyda'r asesiad neu'n meddwl ei fod yn iawn ar y cyfan. Roedd eraill yn anghytuno, gan nad oedd y cynllun drafft yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y cyrff dŵr yr oedd ganddyn nhw ddiddordeb ynddynt, neu roedd ganddynt farn wahanol ynghylch problemau mewn cyrff dŵr.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Mae rhai o'r problemau a amlygwyd gan ymatebion yn cynnwys: dŵr ffo ffyrdd a threfol, sylweddau peryglus, morffoleg afonydd (gan gynnwys carthu), gwaith trin carthffosiaeth a draeniau carthffosiaeth gyfun, llif isel, ynni dŵr, draenio gwlypdiroedd, llifogydd, priddoedd, gormod o faetholion, gwaddodion, microbioleg a phwysau datblygu'r dyfodol.

Wrth ddatblygu'r cynllun drafft canolbwyntiodd Asiantaeth yr Amgylchedd ar y problemau a amlygwyd gan y Paneli Cyswllt a'r canlyniadau o ymgynghori ar Broblemau Rheoli Dŵr Arwyddocaol. Y rhain oedd y pwysau a ystyriwyd fel y rhai o'r arwyddocâd mwyaf ar lefel ardal basn afon, yn cyd-fynd â natur strategol y cynllun. Rydym yn derbyn ei bod yn debygol y bydd pwysau a phroblemau mewn cyrff dŵr unigol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ar draws yr ardal basn afon gyfan ond er gwaethaf hynny sy'n bwysig yn lleol.

Gall y sawl â diddordeb weld rhagor o wybodaeth ar gyrff dŵr penodol neu ar yr asesiadau risg nad ydynt yn y cynllun at wefan Asiantaeth yr Amgylchedd '*What's in Your Back Yard*'. Mae'n cynnwys canlyniadau'r holl asesiadau risg ar gyfer pob corff dŵr. Mae datganiadau dull manwl ar gyfer yr holl asesiadau hefyd ar gael ar wefan yr Asiantaeth ar

<http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/33238.aspx>.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai sylwadau'n amau'r safonau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau risg – a oeddynt yn briodol i asesu'r perygl o fethu statws 'da'.

Mae'r safonau a ddefnyddiwyd yn cynnwys y rhai a fydd yn cael eu cynnwys yn 'Cyfeiriadau i Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddosbarthiad' Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maen nhw'n cael eu dangos a'u cyfiawnhau yn y datganiadau dull ar gyfer pob asesiad. Cafodd y datganiadau dull eu hunain eu datblygu gan ddefnyddio arweiniad oddi wrth Grŵp Ymgynghorol Technegol y Deyrnas Unedig (UKTAG) grŵp o arbenigwyr technegol o reoleiddwyr amgylcheddol o ar draws y DU. Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r asesiadau risg ohonynt eu hunain yn gyrru mesurau mewn cyrff dŵr ond yn rhoi sail ar gyfer amlygu problemau a nodi'r ffynonellau posibl. Byddwn yn gweithio trwy'r cylchoedd cyntaf a rhai'r dyfodol er mwyn gwella'r asesiadau gan ddefnyddio'r ymatebion a gasglwyd yn ystod yr ymgynghori yn ogystal â data arall.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd llawer o sylwadau'n cyfeirio at ansicrwydd dros achosion problemau ac ansicrwydd dilynol dros weithrediadau priodol i leihau'r perygl neu effaith i'r corff dŵr.

Mae dal gwaith sylweddol i'w wneud yn ystod y cylch cyntaf er mwyn gwella cymeriadaeth y ffynonellau, dosraniad y pwysau a'u heffaith ar gyrff dŵr. Yn Anecs B gellir gweld fod nifer fawr o gyrff dŵr ble mae'r rheswm dros fethu â chyrraedd Statws Ecolegol Da neu Botensial yn ansicr. Rydym wedi cynnig cyfres o ymchwiliadau er mwyn gwella hyder mewn asesiadau o statws. Mae amryw o ymatebion i'r ymgynghori wedi nodi meysydd penodol o bryder ynghylch dosraniad ffynonellau. Mae gwaith ar y gweill eisoes i ddechrau ymdrin â rhai o'r pryderon hyn.

Er enghraifft:

Materion echdynnu – rydym yn cynnal ymchwiliadau er mwyn penderfynu ar arwyddocâd ecolegol llai o lif pan fyddwn yn ansicr fod yna effaith. Heb y mesurau hyn gall ymchwiliadau i leihau echdynnu fod yn gynamserol a gallai fod cryn berygl y byddai'n anghymesur o ddrud.

At y diben hwn byddwn yn:

- adolygu tarddiad a defnydd y dangosyddion llif amgylcheddol ar gyfer pob corff dŵr yng Nghymru a Lloegr, gyda'r nod o'u gwella er mwyn diwygio'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn 2015.
- cynnal ymchwiliadau safle penodol i benderfynu ar faint a manteision biolegol llifoedd mwy a chyfiawnhau'r angen am fesurau i leihau effeithiau echdynnu.

Bydd y cyfan o'r ymchwiliadau'n cael eu cynnwys fel gyrwyr y rhaglen Adfer Echdynnu Cynaliadwy yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr .

Ar faterion **ansawdd dŵr**, byddwn yn gweithio i leihau'r ansicrwydd sy'n aros ynghylch:

- statws asesiadau gan ddefnyddio'r teclynau dosbarthu newydd
- a yw'r cyrff dŵr yn cael eu heffeithio'n anffafriol, gan gynnwys tystiolaeth fiolegol ddigonol ar gyfer safleoedd sy'n methu â chyrraedd safonau maetholion.
- y canlyniadau a rhagwelir gan weithrediadau i ateb gofynion ardaloedd gwarchodedig
- pwysigrwydd cymharol gwahanol ffynonellau o lygredd
- i ba raddau y gellir datblygu technoleg i alluogi gwella mwy ar ansawdd dŵr
- cost effeithiolrwydd a mantais mesurau i daclo llygredd dŵr gwasgaredig
- effeithiau tymor hir newid hinsawdd

Rydym yn

- datblygu'r defnydd o fodelau darogan ansawdd dŵr cenedlaethol
- gweithio gydag Ymchwil Diwydiant Dŵr y Deyrnas Unedig (UKWIR) ar brosiect dosrannu ffynonellau i ddatblygu methodoleg ar gyfer mesurau targedu
- gweithio gydag amrywiaeth o ddiwydiannau, gan gynnwys y diwydiant dŵr, i wella mesur gollyngiadau o gemegolion sy'n codi o'u gwaith
- cynnal ymchwil pellach i ffosforws mewn dŵr daear, gan gynnwys datblygu modelau cysyniadol Ffynhonnell - Llwybr - Derbynnnydd cadarn.
- datblygu a mireinio'r modelau cysyniadol ar gyfer cyrff dŵr daear

Ar faterion **ansawdd tir**, rydym yn:

- Datblygu fframwaith rheoli gwaddodion er mwyn sefydlu cynllun rheoli gwaddodion priodol ar gyfer dalgylchoedd / is-ddalgylchoedd penodol. Rhan

allweddol o hyn fydd datblygu 'pwysau o dystiolaeth' fod gwaddodion yn cael effaith ar yr amgylchedd. Bydd hynny'n tynnu amrywiaeth o dystiolaeth at ei gilydd (nid data samplo ansawdd dŵr yn unig) er mwyn cyfiawnhau gweithredu er i daclo problemau gwaddodion e.e. indecsau biolegol a data asesu risg.

- Rheoli dalgylchoedd prawf i wella'r sail tystiolaeth a phrofi effeithiolrwydd mesurau lliniaru a nodwyd ar gyfer hydromorffoleg. Mae'r dalgylchoedd prawf yn cael eu nodi o dan y rhaglen mesurau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf.
- Gwella sail gwybodaeth a thystiolaeth. Er enghraifft, gwella'n dealltwriaeth o'r ymateb ecolegol i faetholion gan gynnwys y pwysigrwydd cymharol o ffosfforws toddadwy a chysylltiedig â gwaddodion; goblygiadau hynny ar gyfer rheoli ffynonellau a gwella effeithiolrwydd a thargeddu mesurau.

4.5 Monitro

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg yn y monitro ar nifer fawr o gyrff dŵr ac yn gofyn pam oedd cymaint 'heb eu hasesu' neu 'ddim angen eu hasesu'.

Yn y cynllun drafft dosbarthwyd statws y rhan fwyaf o gyrff dŵr. Ni oedd rhai o'r asesiadau mesurau lliniaru ar gyfer gyrff dŵr sydd wedi'u newid yn sylweddol yn barod mewn pryd, felly cafodd y potensial ecolegol cyffredinol ei adrodd fel 'heb eu hasesu eto' er gwaethaf y ffaith fod ganddynt asesiad ecolegol. Bydd gan bob un corff dŵr asesiad statws yn y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf.

Mae'r label 'ddim angen asesiad' yn gysylltiedig â statws cemegol yn hytrach na statws ecolegol. Mae pob corff dŵr angen ei asesu'n ecolegol, ond ni chynhelir asesiad statws cemegol oni bai ei bod yn wybyddus fod sylwedd â blaenoriaeth yn cael ei ollwng iddo mewn meintiau arwyddocaol. Er enghraifft, bydd gan gorff dŵr sy'n derbyn elifiant wedi'i drin o waith trin carthffosiaeth trefol asesiad statws cemegol ond does dim angen asesiad statws cemegol ymlaen y dalgylch sydd heb unrhyw fewnbnw arwyddocaol o sylweddau â blaenoriaeth.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Cyflwynwyd sylwadau ar y diffyg gwybodaeth ar aberoedd, dyfroedd yr arfordir a chamlesi

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datblygu rhaglenni monitro newydd ar gyfer pob math o ddyfroedd, ond mae amrywiaeth eang yn y data hanesyddol sydd gennym o raglenni blaenorol. Fel y gellid disgwyl, ceir archif gynhwysfawr o ddata monitro cemegol dyfroedd wyneb y mewndir yn enwedig islaw prif fannau ffynonellau allyriadau. Ar y pegwn arall, dim ond yn 2007 y dechreuwyd monitro'n rheolaidd ar gyfer rhai elfennau biolegol mewn aberoedd a dyfroedd yr arfordir. Golyga ystyriaethau ymarferol na fydd data ar gyfer yr holl gyrff dŵr ar gael tan 2010.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd angen eglurhad ynghylch pa ystod o ddata gafodd ei ddefnyddio ar gyfer monitro.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Dywedodd un ymatebydd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio system fonitro anaddas ar gyfer haearn (rydym yn defnyddio haearn toddedig yn hytrach na chyfanswm haearn - sef y mesurydd sy'n dangos orau y difrod a achosir gan haearn yn gysylltiedig ag effaith dŵr o byllau mwyn).

Mae llawer o'r data a ddefnyddiwyd i asesu'r dosbarthiadau yn eithaf newydd. Er enghraifft, mae'r rhaglen fonitro ar gyfer cemeg anianol yn golygu cymryd samplau o

bob pwynt monitro ddeuddeg gwaith y flwyddyn, bob blwyddyn. Yna, defnyddir samplau misol am dair blynedd ar ôl ei gilydd i wneud asesiad - felly mae set o ddata cemeg anianol yn cael ei seilio ar 36 sampl o ddata 2006 - 2008. Mae amllder ein harolygon ar gyfer rhaglenni monitro biolegol yn amrywio o un mewn tair i un mewn chwe blynedd, yn dibynnu ar yr elfen ansawdd mae gennym ddiddordeb ynddo. Rydym yn defnyddio dyddiad terfyn, y tu hwnt i hynny ystyrir nad yw'r data bellach yn gynrychiadol o'r amgylchedd presennol. Defnyddir yn y cynllun cyntaf unrhyw ddata addas o 2003 - 2008 yn gynwysedig.

Mae'r pryderon a godwyd ynghylch monitro haearn wedi'u trafod ymhellach gydag arweinydd ein Polisi Dŵr Pyllau Mwyn ac mae'n derbyn sylw er mwyn sicrhau fod ein rhaglen fonitro'n cynnwys cyfanswm haearn wrth ystyried effaith dŵr pyllau mwyn.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Holodd rhai ymatebwyr a fydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio data gan sefydliadau eraill i gyd-fynd â'r rhaglen fonitro.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn croesawu unrhyw dystiolaeth ynghylch iechyd yr amgylchedd dŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr wybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol iawn wrth ymchwilio i broblemau lleol ac o bosibl ar gyfer dylunio rhaglenni monitro newydd.

Er mwyn i'r asesiadau statws fod ar yr un lefel ledled gwledydd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd, mae'r rhan fwyaf o dechnegau dosbarthu sy'n cael eu defnyddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhagnodol. Maen nhw'n gofyn am gynnal y mesuriadau mewn ffordd benodol a chadw'r data ar ffurf benodol. Oni bai fod sefydliadau eraill yn defnyddio'r un technegau asesu ac yn defnyddio'r un mesurau sicrwydd ansawdd ni fydd yn bosibl defnyddio eu data nhw wrth ddosbarthu statws.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch yr hyn mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei wneud i gynyddu sicrwydd.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal ymchwil pellach i benderfynu achosion a ffynonellau methu â chyrraedd statws da. Cyfeirir at y gwaith yma yn y cynllun fel Ymchwiliadau. Mae amrywiaeth eang o ymchwiliadau'n bosibl. Efallai bydd rhai, yn syml, yn golygu bod un o'n swyddogion amgylchedd lleol yn cerdded glan yr afon i nodi ffynhonnell halogyddion amlwg. Bydd eraill yn gofyn am fwy o sampl. Gallwn ddefnyddio modelu soffistigedig a thechnegau asesu i sefydlu'r rheswm dros broblemau ansawdd dŵr. Gall data gan sefydliadau eraill hefyd gyfrannu at ein dealltwriaeth o broblemau mewn cyrff dŵr. Yn y cynllun, mae Anecs E yn datgan ble rydym angen cynnal ymchwiliadau ac yn egluro, yn gyffredinol, natur yr ymchwiliad.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn dylunio'n rhaglen fonitro amgylcheddol nesaf, a fydd yn cael ei gweithredu yn 2010 ac yn rhedeg hyd at 2012. Rydym yn canolbwyntio ar gasglu data biolegol os bydd gennym reswm dros gredu y gallai statws ecolegol da cael ei gyfaddawdu, er mwyn i ni gael gwell asesiad o faint o niwed y bydd bywyd gwyllt sy'n byw yn ein cyrff dŵr yn ei ddioddef.

4.6 Dosbarthiad

4.6.1 Methodoleg

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlid fod methodoleg y dosbarthiad yn gymhleth iawn ac yn anodd ei werthuso. Nid oedd yn amlwg sut mae'n ystyried amrywiadau tymhorol. Cafwyd ceisiadau am y data manwl sy'n sail i'r dosbarthiad ac am ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r dosbarthiad.

Mae'r datganiadau dull newydd yn egluro sut y cafodd y system ddosbarthu ei datblygu wedi'u cyhoeddi ar wefan UKTAG. Mae'r wefan yn dangos y dull y tu ôl i bob teclyn dosbarthiad ar amryw o lefelau manylder. Gellir cael crynodeb o'r dulliau yno yn ogystal ag adroddiadau mwy manwl ar gyfer ein teclynnau biolegol.

Cafodd systemau monitro a dosbarthu Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'u paratoi i ddileu effeithiau amrywiadau tymhorol o'r canlyniadau. Er enghraifft:

- bydd ansawdd dŵr yn cael ei samplu'n fisol a defnyddir y data o dair blynedd dilynol i ddosbarthu'r corff dŵr.
- Cymerir cyfartaledd o ddata arolygon y gwanwyn a'r hydref gyfer rhai mathau o asesiadau biolegol.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch defnyddio data mewn dosbarthiadau yn ein datganiad dull dosbarthiad.

(http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/Classification_Method_Statement_FINAL.pdf)

Gellir gofyn am y data a ddefnyddiwyd fel sail i'n canlyniadau dosbarthiad oddi wrth eich swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd lleol, neu trwy'n Canolfan Cyswllt Cwsmer Cenedlaethol ar 08708 506 506 neu e-bostiwrch enquiries@environment-agency.gov.uk

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Holodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn sut y mae cyrff dŵr yn cael eu diffinio'n ddaearyddol a gofyn hefyd pam nad oedd cyrff dŵr SoDDGA o dan lefel y trothwy wedi'u cynnwys.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlid fod Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn rhy gyffredinol ac nad oedd y pum dalgylch a ddefnyddiwyd bob amser yn addas ar gyfer yr afonydd sydd ynddyn nhw.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Awgrymai rhai ymatebwyr fod unedau cyrff dŵr arfordirol yn rhy fawr a bod problem pysgota masnachol wedi'i anwybyddu.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Ystyrid fod cyrff dŵr daear yn rhy fawr ac y credid bod amheuaeth ynghylch statws cemegol dŵr daear.

Nodwyd, diffiniwyd ac adroddwyd ar gyrff dŵr y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn wreiddiol i Ewrop yn 2005. Dilynodd Asiantaeth yr Amgylchedd reolau penodol y Strategaeth Gweithredu Cyffredin a Chanllaw UKTAG a gynhyrchwyd ar gyfer pob categori dŵr. Fis Mawrth 2008, derbyniwyd Cyfarwyddyd oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Loegr i ychwanegu nifer o gyrff dŵr llai o arwyddocâd o ran bioamrywiaeth a ychwanegwyd at y rhwydwaith afonydd, llynnoedd, dyfroedd trawsnewidiol ac arfordiroedd. Rydym yn ymwybodol efallai bod ychydig o anghysonderau yn dal yn ein cyrff dŵr a byddwn yn adolygu'r rhwydwaith cyrff dŵr ar gyfer ail rownd cynllunio basn afon.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno gyda'r dosbarthiadau a gofynnwyd a ellid eu newid.

Mae'r modd y mae'r cyrff dŵr yn cael eu dosbarthu'n ffordd newydd o feddwl am yr amgylchedd. Mewn rhai achosion gallai fod problem leol iawn mewn corff dŵr na fydd yn golygu y bydd y cyfan o'r corff dŵr yn cael ei israddio ac mewn achosion eraill efallai y bydd yn rhaid israddio corff dŵr a gafodd ei asesu'n iach o'r blaen oherwydd canlyniadau asesiadau biolegol newydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn croesawu gwybodaeth i nodi'r bylchau yn ein gwybodaeth a'n helpu i ddylunio rhaglenni monitro ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi diweddarau'r dosbarthiadau gan gydnabod y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghori ac adroddir ar yr asesiadau newydd yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Bydd yr asesiadau hyn yn gwneud defnydd o arolygon a gynhaliwyd yn 2008 ac fe'u seilir ar newidiadau i rai o dechnegau asesu dosbarthiadau.

Rydym yn anelu at reoli cymaint o ffynonellau gwallau ag sydd bosibl yn y dosbarthiadau. Gall pa mor fanwl a chywir yw offer labordai, amrywiadau mewn technegau samplo, lleoliad ac amser arolygon, amllder samplo a chalibradau ein holl fodelau oll fod yn ffynhonellau posibl o wallau. Gan fod rhai gwallau yn sicr o aros rydym wedi penderfynu adrodd ar y lefel o bendantwydd sydd gennym yn ein dosbarthiadau. Mae Atodiad B y cynlluniau drafft a chyntaf yn dangos pa mor bendant yr ydym fod corff dŵr yn methu â chyrraedd statws da. Targedir monitro yn y dyfodol ar y cyrff dŵr hynny lle'r ydym yn amhendiant ar hyn o bryd ynghylch y statws gwirioneddol.

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Roedd rhai ymatebwyr yn anfodlon gyda'r safonau a ddefnyddiwyd – a oedd y safon ffosffad yn rhy uchel neu'n rhy isel ac a oedd y safon nitrad ar gyfer dŵr yfed yn gywir, er enghraifft.

Rydym wedi cynhyrchu dosbarthiadau ac wedi defnyddio safonau amgylcheddol yn unol â Chyfarwyddiadau Gweinidogion ar safonau amgylcheddol a dosbarthiadau cyrff dŵr. Cafwyd ymgynghori ar wahân ar y rhain (ymgynghoriad ar Gyfarwyddiadau i Asiantaeth yr amgylchedd ar Ddosbarthu Cyrff Dŵr Hydref i Ragfyr 2008). Seiliwyd y rhain yn eu tro ar ddogfennau canllaw UKTAG, ac ymgynghorwyd arnyn nhw hefyd. Ymgynghorwyd ar ddwy ran y safonau amgylcheddol ac ar un o'r dosbarthiadau.

4.6.2 Dosbarthiadau Pysgod

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Cafwyd nifer o sylwadau ar gywirdeb y dosbarthiadau pysgod yn y cynllun drafft, rhai yn mynd mor bell ag awgrymu y dylid ail-ddylunio'r system yn gyfan gwbl.

Ceir eglurhad ar y Cynllun Dosbarthu Pysgod (FSC2) yn y datganiadau dull. Mae'n asesu statws biolegol afonydd ar sail faint o 23 o rywogaethau o bysgod sydd yno, yn ôl data o arolygon.

Mae'r System Ddosbarthu'n defnyddio pysgod i ddosbarthu yn seiliedig ar Gymhareb Ansawdd Ecolol, mesur o'r pysgod a welir mewn perthynas â'r gymuned bysgod a ddisgwyliid mewn afon debyg o dan amodau cyfeiriol (heb bwysau). Yna newidir y Gyfradd Ansawdd i un o bump dosbarth statws yn ôl gofynion y Gyfarwydddeb Framwaith Dŵr.

Ni ellir mynegi mewn rhif sengl y disgwyliad y bydd hyn a hyn o bysgod mewn safle fel ond fe'i mynegir fel dosbarthiad tebygolrwydd o werthoedd posibl. Disgrifir y dosbarthiad o ran y mynychder (y tebygrwydd y bydd rhywogaeth yn bresennol) a chyfartaledd cyflenwad (ar safleoedd lle mae'r rhywogaeth yn bresennol).

Yna defnyddir y model Cynllun Dosbarthu Pysgod i ragfynegi pa gymuned o bysgod y gellid ei ddisgwyl mewn math penodol o afon (a ddiffinnir gan newidolion amgylcheddol a lleoliad daearyddol) o dan amodau cyfieiriol.

Cymherir nifer y pysgod a welir gyda nifer y pysgod yn y model. Mynegir y gwahaniaeth rhwng y pysgod a welir a'r statws a ddisgwyllir fel y tebygolrwydd (0 – 1) o gael nifer tebyg neu lai o bysgod ar safle gyfeiriol debyg. Mae rhai rhywogaethau'n naturiol brin neu wedi'u dosbarthu'n anwastad hyd yn oed o dan amodau cyfeiriol ac yn rhoi syniad llai sensitif o ansawdd ecolegol.

Newidir y tebygolrwydd ar gyfer pob rhywogaeth unigol i debygolrwydd cyfun ar gyfer pob rhywogaeth ar safle arolwg. Gelwir y canlyniad yn Gymhareb Ansawdd Ecolegol sy'n cael ei neilltuo i un o bump dosbarth ansawdd ecolegol.

Mae canlyniadau dosbarthiadau pysgod mewn afonydd ar gyfer y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf yn aml yn dra gwahanol i'r rhai a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Y rheswm dros y gwahaniaethau hyn yw y newidiwyd y model FCS2 ac y bu newidiadau yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r dosbarthiad a restrir isod.

- Ychwanegwyd newidynnau amgylcheddol a phwysau at y modelau
- Nodwyd rhwystrau i fyny'r afon sy'n rhwystro pysgod rhag mudo a newidiwyd y cymunedau pysgod a ragwelir yn unol â hynny.
- Newidiwyd terfynau dosbarthu ar gyfer penderfynu statws cyrff dŵr i gyd-fynd â'r diffiniadau normadol o statws
- Defnyddiwyd data o 2003 hyd at 2008 i gynhyrchu'r dosbarthiadau
- Mae safleoedd arolwg a data amhriodol wedi'u tynnu o'r canlyniadau dosbarthiad

4.6.3 Dynodiad a Dosbarthiadau Cyrff Dŵr Artiffisial ac Wedi'u Newid yn Sylweddol

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Roedd nifer o sylwadau ynghylch diffyg tryloywder adnabod Cyrff Dŵr Artiffisial ac Wedi'u Newid yn Sylweddol a'u dosbarthiad dilynol.
- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurhad ar Statws Ecolegol Da a Photensial Ecolegol Da

Cafodd dyfroedd artiffisial ac wedi'u newid yn sylweddol eu nodi a'u dynodi gan ddefnyddio setiau data sydd ar gael yn genedlaethol. Mae'r setiau data'n rhoi gwybodaeth ar newidiadau uniongyrchol i gyrff dŵr (e.e. presenoldeb newidiadau at ddibenion amddiffyn rhag llifogydd gan ddefnyddio basdata cenedlaethol amddiffyn llifogydd ac arfordirol) ac ar bwysau graddfa dalgylch ehangach (e.e. ardaloedd trefol dwys a setiau data ar ddefnydd tir ehangach).

Mae'r broses ddynodi yn Anecs 1 yn edrych ar y newidiadau sy'n effeithio ar gorff dŵr cyfan. O ystyried maint a nifer y cyrff dŵr a'r data sydd ar gael, nid yw'n bosib ar hyn o bryd ddarparu manylion newidiadau unigol pob un corff dŵr.

Roedd yn anodd asesu statws corff dŵr yn enwedig o safbwynt hydromorffolegol. Mae'r data perthnasol ym mherchnogaeth ac yn cael ei gasglu gan nifer o sefydliadau allanol. Mae'r sefydliadau allanol hyn yn amrywio yn eu gallu i gyflwyno data pwysau hydromorffolegol perthnasol ar gyfer ymgynghori. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dechrau ar brosiect i ddatblygu basdata canolog ac wedi'i gefnogi'n llawn ar gyfer yr holl ddata morffolegol.

Ar gyfer y cynllun cyntaf, cafodd yr holl ddynodiadau a dosbarthiadau eu hadolygu gan staff Asiantaeth yr Amgylchedd lleol sy'n gyfarwydd â phob corff dŵr a ble bo'n bosibl, maen nhw wedi trafod gyda chyrff lleol eraill megis y Byrddau Draenio Mewnol.

Mae Statws Ecolegol da yn werthusiad o statws y dyfroedd fel sy'n cael ei nodi gan gyflwr nifer o 'elfennau ansawdd' (dim ond ychydig y gellir newid eu cyflwr cyfeiriol neu amodau naturiol). Yn wrthgyferbyniol, i asesu ansawdd y dŵr, asesir Potensial Ecolegol Da drwy ystyried a sefydlwyd cyfres o fesurau lliniaru sy'n lleihau effaith y defnydd ar y corff dŵr.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella dealltwriaeth o briodoldeb y mesurau lliniaru, a byddwn yn cynnal profion i asesu'u heffeithiolrwydd. Bydd hynny'n ein galluogi i ganolbwyntio ar weithredu'r mesurau hynny ble mae gennym hyder mawr y byddant yn gwella elfennau ansawdd biolegol i ddod â'n hasesiad o Statws Ecolegol Da a Photensial Ecolegol Da yn nes at ei gilydd.

Mewn ymateb i geisiadau oddi wrth rhai ymatebwyr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn datblygu canllaw hawdd ar gyfer dynodi HMWB a phrosesau dosbarthu, yn debyg i'r datganiad dull dosbarthu a fydd ar gael cyn bo hir.

- **Ymateb i'r Ymgynghori** Cododd ychydig o ymatebwyr bryderon ynghylch perchnogaeth cyrff dŵr a'r cyfrifoldeb dros fesurau oherwydd nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio at y diben y cawsant eu newid ar ei gyfer yn hanesyddol.

Nid yw'n bosibl bob amser i benderfynu pwy a ddylai fod yn gweithredu i gyrraedd yr amcanion mewn perthynas â morffoleg. Mae hynny'n arbennig o anodd pan gafodd strwythurau eu hadeiladu'n gyfreithiol o dan drefn statudol wahanol, efallai hyd yn oed o dan ofynion y Llywodraeth; a / neu pan fo perchnogaeth neu ddefnydd y strwythur wedi'i newid dros amser. Gan fod llawer o'r hyn a oedd yn niweidiol yn y gorffennol wedi'u wneud a'i gyllido gan gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar y pryd, a chan ei bod yn anodd penderfynu pwy sy'n dal yn gyfrifol, mae'n annhebyg y bydd dibynnu ar yr egwyddor 'y llygryddwr sy'n talu' yn arwain at y gwaith adfer angenrheidiol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn gweithio gyda Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru i nodi atebion posibl i'r broblem hon.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Codwyd pryderon ynghylch y trothwy penodol a ddefnyddir fel rhan o'r broses ddynodi a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoli cyrff dŵr yn y dyfodol a'r effeithiau posibl ar fagu stociau pysgod.

Defnyddiwyd rheol gorchudd gofodol magu o 15% fel rhan o'r broses ddynodi. Ni fwriedir ffurfio trothwy ar gyfer cyfyngu ar weithgaredd pysgodfeydd mewn cyrff dŵr heb eu dynodi. Os bydd gweithgaredd pysgodfeydd yn cynyddu mewn corff dŵr i'r fath raddau y galli fod yn bosibl y byddai ei statws yn dirywio, yna byddai'r gweithgaredd yn destun profion Erthygl 4(7) y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar ddirwyniad er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r Gyfarwydddeb.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnodd ymatebwyr pa waith i hwyluso llwybrau pysgod sydd angen eu cynnwys ar gyfer cyrff Dŵr Wedi'u Newid yn Sylweddol.

Pan fo cyrff dŵr wedi'u dynodi fel A/HMWB ar gyfer un o'r defnyddiau canlynol: storio a chyflenwi dŵr, mordwyo mewndirol, rheoli perygl llifogydd, draenio tir, amddiffyn rhag llifogydd trefol neu arfordirol a chyda strwythur caeedig yna byddai gofyn sefydlu'r mesur lliniaru canlynol: "Sefydlu strwythurau neu beirianwaith arall a'u rheoli i alluogi pysgod i fynd at ddyfroedd i fyny ac i lawr yr afon heibio'r strwythur sy'n eu rhwystro, i gyrraedd Perfformiad Amgylcheddol Da. 4.7 Gweithrediadau

- **Ymateb i'r ymgynghoriad:** Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r rhychwant o weithrediadau yn y cynllun a'r pwyslais ar fanylion a phrosiectau lleol.

- **Ymateb i'r ymgynghoriad:** Roedd yna nifer o sylwadau, yn enwedig oddi wrth y rhai sy'n gysylltiedig â'r diwydiant dŵr, ar ragoriaeth gweithrediadau i'w hariannu gan y cwmnïau dŵr a chwestiynau ynglŷn ag a oedd hyn yn cydymffurfio â'r Egwyddor bod y Llygrydd yn Talu.

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn tynnu at ei gilydd yr holl ymdrech i wella'r amgylchedd dŵr dros y chwe blynedd nesaf gan ymgorffori'r gwelliannau sylweddol sy'n codi o ofynion Cyfarwyddiaethau sydd eisoes yn bodoli. Roedd Cyfarwyddiaethau cynharach wedi eu hanelu i raddau helaeth at ddelio â gollyngiadau tarddle pwynt, sydd yn bennaf yn gyfrifoldeb y cwmnïau dŵr.

Un o'r prif elfennau dosbarthu sydd angen sylw, i symud tuag at gael mwy o gyrff dŵr gaiff Statws Ecolegol Da, yw ffosffad ac mae gollyngiadau cwmnïau dŵr yn ffynhonnell bwysig ynghyd â cholledion o amaethyddiaeth. Mae'r cyfuniad hwn o waith sydd ei angen i gyflawni ymrwymadau oddi wrth Gyfarwyddiaethau hŷn a gollyngiadau ffosffad o systemau carthffosiaeth yn egluro'r cyfraniad sylweddol sydd ei angen oddi wrth gwmnïau dŵr yn y cylch cyntaf.

Mae yna, wrth gwrs, ffynonellau eraill o lygredd megis cemegolion amaethyddol. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gymuned amaethyddol i dalu sylw i'r problemau hyn. Bydd cynlluniau pellach, megis y cynllun Glastir sydd ar ddod yng Nghymru, yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gwiredir buddion llawn ar gyfer cyrraedd amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon.

Mae metelau, gan gynnwys cadmiwm, plwm, sinc, copr a haearn yn effeithio ar ein hamgylchedd dŵr o'n treftadaeth ddiwydiannol o weithgaredd cloddio am fwynau. Mae Strategaeth Metelau Pyllau Cymru'n ymchwilio ac yn asesu'r dewisiadau ar gyfer adfer pyllau mwynau. Bydd rhaglen yr Awdurdod Glo ar gyfer ymchwilio ac adfer yn dal i daclo problemau llygredd o'n gorffennol cloddio am lo.

Mae'r adran isod ar Asesu Effaith (4.11) yn delio â materion economaidd a'r baich ar y Diwydiant Dŵr.

4.7.1 Senarios

- **Ymateb i Ymgynghoriad:** Roedd rhai o'r rhai a ymatebodd yn cael y senarios yn ddryslyd, a doedden nhw ddim yn siŵr sut byddai gweithrediadau Senario C yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyntaf. Roedd eraill yn awgrymu newidiadau i'r senarios ar gyfer rhai gweithrediadau.

Roedd y gyfrol gyntaf o'r Canllaw Gweinidogol ar Gynllunio Basn Afon yn gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd gynnwys ym mhob cynllun drafft senario "gwneud dim" (gan egluro'r waelodlin pe na bai unrhyw weithredu'n digwydd i bwrpasau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) a nifer fechan o senarios eraill yn disgrifio ymdriniaethau amgen. Wrth ddatblygu'r senario cyntaf, daeth yn amlwg bod y teitl o "wneud dim" yn rhoi argraff wallus o fuddsoddiad, yn enwedig oddi wrth y diwydiant dŵr, yr oedd disgwyl iddo gyflawni cydymffurfiaeth gyda Chyfarwyddebau sy'n bodoli eisoes. Fe benderfynon ni felly alw hon yn syml yn "Senario A". I gyd-fynd â'r canllaw, datblygwyd dwy senario arall, "B" ac "C".

Roedd Senario A yn cynnwys gweithrediadau oedd eisoes wedi eu cynllunio i gyflawni gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Roedden nhw wedi eu seilio ar fesurau oedd yn bod, megis cynlluniau cwmnioedd dŵr a gynhwyswyd yn eu rhaglenni cyfredol o fuddsoddiadau, a mesurau cwmnïau dŵr yn y dyfodol yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb Trin Gwastraff Dŵr Trefol a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ogystal â gweithrediadau ar

lefel genedlaethol megis Ffermio Sensitif i Ddalgylchoedd ac ymgyrchoedd atal llygredd. Roedd y senario yma'n cynnwys amrywiaeth o weithrediadau i sicrhau dim dirywiad, sialens ynddo'i hun.

Roedd Senario B yn cynnwys yr holl fesurau yn Senario A ond i gynnwys mesurau ychwanegol a yrrwyd gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn unig. Roedd y mesurau ychwanegol hyn yn cynnwys rhai ar lefel genedlaethol, rhai â fframwaith cenedlaethol, ond gyda thargedu rhanbarthol megid yr estyniad i waith Ffermio Sensitif i Ddalgylch a'r rhai ar lefel ardal basn afon megis mesurau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau dim dirywiad mewn statws. Roedd cyfiawnhad dros y rhain yn y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft ar seiliau cost/buddiannau ac roedden nhw i raddau helaeth yn cynnwys mesurau lle rydyn ni'n hyderus bod yna fecanwaith cyflawni neu ffynhonnell o ariannu potensial.

Roedd Senario C yn cynnwys Senario A a Senario B a mesurau sy'n debygol o fod yn gost-ffeithiol a chymesur, ond lle nad oedden ni mor bendant o'u heffeithiolrwydd na'u budd tebygol (neu lle nad oedd sicrwydd ynglŷn ag ariannu).

Does gan y cynllun ei hun ddim senarios. Yn ôl gofynion Canllawiau Gweinidogol, mae'r cynllun yn egluro "dim ond un ymdriniaeth o weithredu'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn ardal y basn afon" – gan roi i "bawb sy'n ymwneud ag ardal y basn afon rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â dyfodol rheolaeth dŵr yn yr ardal". Dyw holl fesurau Senario C ddim wedi cael eu cynnwys yn y cynllun, ond rydyn ni wedi gwneud hynny lle mae ganddon ni hyder rhesymol bod hyn yn mynd i gael ei wireddu.

4.7.2 Hyder ar gyfer Gweithredu

- ***Ymateb i'r Ymgynghoriad:*** Codwyd pryderon lle'r oedd yna ansicrwydd am fedru cyflawni mesurau, yn enwedig y rhai yn Senario C, doedden nhw ddim yn mynd i gael eu cynnwys yn y cynllun cyntaf.

Ar gyfer y radd o sicrwydd sydd ei angen gan Ganllawiau Gweinidogol mae'n amlwg bod rhaid i'r cynllun gael ei seilio ar fesurau sydd wedi eu diffinio'n glir, yn ymarferol a gyda mecanwaith cyflawni clir. Mewn geiriau eraill, all y cynllun ddim cynnwys "rhestr o ddymuniadau" o syniadau fyddai â dim ond ychydig o sicrwydd am y cyflawni gwirioneddol. Rhaid i ni fod yn sicr nad oes gan gorff dŵr statws da. Rhaid i ni hefyd fod yn glir bod mesurau'n cael eu seilio ar sicrwydd rhesymol a bod y broblem sy'n achosi i'r corff dŵr i beidio â chyflawni statws da wedi cael ei nodi ac y bydd y mesurau a gynigir yn delio â'r broblem. Dyma'r dull o weithio sydd wedi ei fabwysiadu tra'n datblygu'r cynllun.

Yn Atodiad E o'r cynllun cyntaf rydyn ni wedi nodi pa weithredoedd ar gyfer y dyfodol a allai gael eu gweithredu yn y cylch cyntaf neu mewn cylchoedd i ddod pan fydd ganddon ni fwy o sicrwydd bod eu hangen ac y gellir eu cymhwyso mewn modd effeithiol. Mae'r Atodiad yma hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â ble mae mecanweithiau ariannu amgen wedi cael eu hystyried.

- ***Ymateb i'r Ymgynghoriad:*** Roedd yna gefnogaeth ar gyfer y pwyslais ar archwilio yn y cynllun cyntaf, er mwyn osgoi unrhyw wariant anghymesur diangen. Roedd yna farnau cymysg am yr angen am sicrwydd o 95%, roedd rhai o'r rhai a ymatebodd yn teimlo y gallai rwystro gweithredu rhag cael ei wireddu, roedd eraill yn cytuno gydag ymdriniaeth ofalus o osod amcanion a diffinio'r rhaglen o fesurau. Roedd angen eglurder ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng hyder dosbarthu a hyder ar gyfer gweithredu.

- **Ymateb i'r ymgynghoriad:** Roedd yna gais y dylai canran o hyder gael ei ddarparu, yn hytrach na chael ei fynegi fel 'isel, canolig, uchel'.

Mae nifer o agweddau o ansawdd dŵr yn amrywiol iawn mewn gofod ac/neu amser (hyd yn oed os yn ymarferol, byddai'n well gwario'r arian ar wneud gwelliannau i'r amgylchedd dŵr) ac mae hyn yn arwain at ansicrwydd ystadegol mewn dosbarthu. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyfrifo'r ansicrwydd hwn ac yn ei fynegi yn nhermau ein hyder bod y dŵr mewn dosbarth penodol, neu'n well na dosbarth.

Weithiau bydd ein mynegiant o hyder yn cael ei seilio ar dystiolaeth ategol yn ogystal â dadansoddiad ystadegol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er enghraifft 32 wrth reoli cyrff dŵr sy'n agored i gyfoethogiad maetholion. Gall y ffordd mae cyrff dŵr yn ymateb i gyfoethogiad maetholion fod yn gymhleth. Weithiau gwelir nad yw'r corff dŵr yn cwrdd â'r safon angenrheidiol ar gyfer maetholyn ond dyw'r gymuned fiolegol ddim yn dangos unrhyw arwydd o niwed. Mewn amgylchiadau o'r fath fe fyddai'n gamarweiniol i ddweud ein bod yn bendant iawn bod y corff dŵr yn meddu ar statws llai na da. Mewn sefyllfaoedd eraill, dyw'r corff dŵr ddim yn cwrdd â'r safon ar gyfer maetholion, ac mae'r elfennau biolegol sy'n sensitif i faetholion - y diatomau a'r macroffyttau - hefyd yn dangos arwyddion o niwed. Gall y canlyniad ar gyfer pob elfen yn ei rinwedd ei hun fod â thrachywirdeb isel ac felly hyder isel. Ond mae'r ffaith bod yr holl elfennau'n awgrymu'r un peth - bod yna effaith - yn golygu ein bod yn dod yn fwy hyderus bod yna broblem, felly rydyn ni'n diystyru'r hyder ystadegol o bob prawf ac yn dweud, yn gyffredinol, ein bod yn hyderus iawn bod yna broblem ac y gallwn ni ystyried camau cywirol.

Ni fyddai'n deb gosod costau uchel ar y rhai fyddai'n gorfod gwneud gwelliannau mewn achosion lle nad ydyn ni wedi gallu pennu methiant gyda hyder. Mewn achosion o'r fath mae amgen i ni wneud mwy o fonitro ac ymchwilio'n gyntaf.

Does yna ddim rheol 'yr un peth i bawb' ar gyfer pennu'r pwynt lle rydyn ni'n dod yn ddigon hyderus i weithredu. Os oes angen cyfiawnhau gweithrediadau drud neu ddadleuol fe fydd angen i ni, yn gyffredinol, fod yn 95% hyderus (neu gael tystiolaeth ategol fel y disgrifir uchod ar gyfer maetholion) bod y dŵr yn wir yn waeth na'r dosbarth mae angen iddo fod ynddo, neu ei fod yn wynebu dirywiad. Ond mewn achosion eraill gall y gweithrediadau rydyn ni angen i eraill ymgymryd â nhw gael eu cytuno'n fwy parod ac ni fydd angen cael lefel o 95% o sicrwydd.

Rydyn ni wedi gwella terminoleg ein dosbarthiad yn y cynllun. Rydyn ni'n dweud pa mor bendant ydyn ni bod corff dŵr o statws is na da.

- Os oes sicrwydd o 95% bod y corff dŵr ar statws canolig neu waeth rydyn ni'n dweud ein bod yn bendant iawn bod y corff dŵr o statws gwaeth na da.
- Os oes sicrwydd o 75% rydyn ni'n dweud ein bod yn weddol bendant bod y corff dŵr o statws gwaeth na da. Rydyn ni'n disgwyl i'r lefel yma o sicrwydd fod yn briodol i yrru'r rhan fwyaf o fathau o weithrediadau.
- O dan 75% o sicrwydd rydyn ni'n dweud ein bod yn 'ansicr'. Bydd cyrff dŵr o'r fath yn cael eu monitro ymhellach fel y gallwn gynyddu ein sicrwydd.

I gyfathrebu neges syml i ddefnyddwyr y cynllun dydyn ni ddim yn cynnwys mynegiant o sicrwydd a yw'r corff dŵr ar statws uchel neu dda, er y byddwn yn defnyddio'n dealltwriaeth o hyder yn y data i arwain penderfyniadau ynglŷn â monitro yn y dyfodol.

Wedi penderfynu bod yna broblem real i'w datrys, rydyn ni wedyn yn troi at yr angen i fod yn rhesymol sicr y bydd unrhyw fesur yn cyflawni'r gwelliant amgylcheddol angenrheidiol. Mae'n amlwg bod angen i hyn gael ei seilio ar ddealltwriaeth o achos ac effaith.

Ar gyfer C yrff Dŵr wedi eu Haddasu'n Helaeth yn benodol does ganddon ni ddim o'r ddealltwriaeth o'r mesurau lliniaru mwyaf addas y dylid eu gwredu i wneud y gorau o wella amgylcheddol; ac felly gyrraedd gwir Botensial Ecolegol Da. Mae yna berygl amlwg, heb y wybodaeth yma, bydd unrhyw fesurau lliniaru gaiff eu gweithredu yn profi i fod o werth prin, neu hyd yn oed yn waeth bod â'r potensial i achosi mwy o ddrwg nag o les. Felly mae gwella'n dealltwriaeth yn y maes hwn, trwy dreialon peilot ac ati yn fesur allweddol ar gyfer y cylch cyntaf ac mae'n ymdriniaeth o hyn wedi ei roi yn 4.6.3.

4.7.3 Asesiad o Weithrediadau

- **Ymateb i'r Ymgynghoriad:** Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno gyda chanlyniad yr asesiadau gafodd eu gweithredu i bennu'r gweithrediadau yn y cynllun. Roedden nhw eisiau deall y broses o ddewis gweithrediadau, cost rhoi gweithrediadau penodol ar waith a pha weithrediadau nad oedd wedi cael eu cynnwys a pham.

Rydyn ni wedi adolygu Atodiad E (Gwerthusiad Gweithrediadau) er mwyn cynnwys mwy o fanylion ar y broses gynllunio a thybiaethau polisi er mwyn sicrhau tryloywder gwneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys ystyried dichonolrwydd technegol ac a yw'r costau'n anghymesur.

Mae'r Atodiad yn ei gwneud yn fwy eglur sut mae'r broses wedi ei defnyddio i nodi gweithrediadau er mwyn cyflawni amcanion statws da neu botensial da ar gyfer y cylch hwn yn y cynllun. Lle nad yw'r amcanion yn bosibl ar gyfer y cylch yma o'r cynllun mae'r broses yn dangos sut mae amcanion amgen wedi eu nodi ar gyfer pob corff dŵr a'r rheswm am hyn, gyda chyfeiriadau ar gostau anghymesur a dichonolrwydd technegol.

Lle mae angen amcanion amgen mae Atodiad E yn ystyried pa fath o weithrediadau y gellir bod eu hangen er mwyn cyflawni statws da neu botensial yn y dyfodol, gyda sylwebaeth ar p'run ai y gallai'r gweithrediadau hyn ddatblygu'n dechnegol ymarferol a chymesur mewn cost mewn cylchoedd y cynllun yn y dyfodol.

Mae'r costau ar gyfer rhoi'r gweithrediadau ar waith yn cael eu cynnwys yn yr Asesiadau Effaith sy'n cyd-fynd â'r cynllun. Mae'r Asesiadau Effaith yn defnyddio'r canlyniadau o'r Gwerthusiad Effeithiolrwydd Cost Ragarweiniol a weithredwyd fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil Cydweithredol a arweiniwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae amcangyfrifon o'r costau hefyd wedi eu darparu gan staff Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae hyn wedi ei adolygu fel rhan o'r broses o symud o Asesiad Effaith drafft i'r terfynol i wella ansawdd yr amcangyfrifon. Rydyn ni wedi casglu mwy o wybodaeth ar gostau ond mae wedi bod yn anodd cael gafael ar neu briodoli holl wybodaeth am y budd-daliadau.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Tynnwyd sylw at y berthynas rhwng Gyfarwydddeb y Fframwaith Dŵr a Chyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar. Dywedodd ymatebwyr y dylai'r cynllun ailadrodd lle mae angen amcanion llymch i gyflawni statws cadwraeth fwy ffafriol mewn safleoedd Natura 2000, dylai'r rhain gael eu gweithredu. Roedd angen cynnwys mesurau er mwyn cyflawni'r safonau hyn.

Lle mae Ardaloedd Natura 2000 wedi eu Gwarchod yn methu â chyflawni eu hamcanion mae 'Natural England' a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi nodi'r mesurau sydd angen eu gweithredu i'w cyflawni. Mae'r mesurau hyn yn rhan o raglen waith i gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Adar.

Mae cyflwyniad y berthynas rhwng amcanion statws ar gyfer cyrff dŵr (Atodiad B) a'r amcanion ardal wedi ei hamddiffyn (Atodiad D) wedi ei wella yn y cynllun. Mae'n bwysig nodi nad yw statws corff dŵr ac amcanion ardal wedi ei hamddiffyn bob amser yn uniongyrchol gymharol. Gall amcanion statws corff dŵr ac ardal wedi ei hamddiffyn fod yn gymwys yn yr un lleoliad ac mae'n bwysig darllen yr amcanion geir yn Atodiad B a D yn gyfochrog. Er enghraifft, lle mae Ardaloedd Natura 2000 sydd wedi eu Hamddiffyn yn cyd-fynd â'r cyrff dŵr rydyn ni'n ceisio cyflawni amcanion statws Cynllun Amddiffyn Basn Afon gofynnol ar gyfer pob corff dŵr yn ogystal â'r amcan ar gyfer Ardal o Statws Cadwraeth Ffatriol Wedi ei hamddiffyn Natura 2000. Mae'r testun cyflwyniad i Atodiad D yn egluro'r rhyngberthynas yma'n fwy mawl. Mae'r tablau cyrff dŵr yn Atodiad B yn dynodi ble mae amcanion Ardal wedi ei Hamddiffyn sydd hefyd yn gymwys, ac mae tablau Natura2000 yn Atodiad D yn dynodi os ydyn nhw, ac os felly gyda pha gorff dŵr maen nhw'n gorgyffwrdd er mwyn helpu'r darlennydd i ddeall yr amcanion cyfochrog sy'n gymwys ar gyfer y safle hwnnw.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlwyd bod rhai gweithrediadau ar goll neu'n annigonol, megis y rhai i amddiffyn cyflenwadau dŵr yfed. Byddai angen y gweithrediadau hyn er mwyn cyrraedd y targedau a gynigir.

I ailadrodd testun o'r adran gynharach ar Amcanion Ardaloedd a Amddiffynnir (4.3.2): Yn ystod y cyfnod ymgynghorol, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal asesiad risg o Ardaloedd Dŵr Yfed wedi eu Hamddiffyn. Mae'r asesiad risg wedi cael ei hysbysu gan ddata cwmni dŵr, yn cynnwys y rhai a ddarparwyd adroddiadau'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed. Pan fo digon o hyder y gall dirywiad ddigwydd, mae mesurau wedi cael eu cynnig ac maen nhw nawr i'w cael yn Atodiadau C a D. Lle mae risg wedi cael ei nodi ond mae hyder yn isel, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal monitro ac archwilio pellach, ac yn cynnig mesurau os gellir cadarnhau'r risg o ddirywiad.

- **Ymateb i'r Ymgynghoriad:** Roedd rhai yn teimlo nad oedd y cynllun drafft yn cynnwys llawer o fesurau newydd neu benodol, a'u bod yn canolbwyntio'n ormodol ar weithrediadau sydd eisoes yn bodoli neu rai wedi eu cynllunio.
- **Ymateb i'r Ymgynghoriad:** Roedd rhai gweithrediadau yng Nghynllun Gorllewin Cymru cael eu hystyried yn ddadleuol, gan gynnwys calchio blaenau dyfrodd a defnyddio sŵn mewn dŵr rhag morloi.

Mae yna gryn dipyn o waith i'w gwblhau o ganlyniad i gyfarwyddbau rhagflaenwyr sydd wedi eu cofnodi yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Mae yna estyniadau i Ffermio Sensitif i Ddalgylch a rheoli ffynonellau megis gwahardd ffosfforws mewn glanedyddion domestig. Disgwylir y bydd gweithrediadau penodol yn y cynlluniau cyflenwi yn ymelwa ar dechnegau a gweithrediadau arloesol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac/neu Lywodraeth y Cynulliad yn archwilio rheoliadau i gyflwyno Parthau Amddiffyn Dŵr symlach, er mwyn atal camgysylltiadau a delio â draenio trefol cynaliadwy a thryledu llygredd o ardaloedd trefol.

Roedd y rhan o'r gwaith a ystyrid yn ddadleuol yn weithrediadau Senario C ac ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru cyntaf, efallai fod hyn oherwydd prinder arian neu fod addasrwydd y mesur ar gyfer yr amgylchedd yn cael ei ail werthuso. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sŵn yn y dŵr rhag morloi. Bydd peth gwaith calchio mewn blaenddyfroedd yn parhau fel y disgrifir yn y

Cynllun drafft, rydym yn barod i drafod y gwaith hwn ymhellach gyda'r ymatebwyr sydd wedi mynegi pryderon ynghylch y mater yn lleol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut y bydd llwyddiant gweithrediadau'n cael ei fesur.

Bydd yr amcanion ar gyfer pob corff dŵr yn cael ei osod allan mewn manylder yn Atodiad B. Mae mesurau wedi cael eu cynllunio, yn gyffredinol, i gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn (a'r amcanion ar gyfer ardaloedd wedi eu hamddiffyn yn atodiad D) a hyn fydd y prif fesur o'u llwyddiant.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd nifer fechan o'r rhai a ymatebodd yn pryderu bod yna fethiant i ddelio â phenodi ffynhonnell yn y cynllun.

Mae hyn yn ymwneud â nodi a chlustnodi graddfa i bwysau penodol a sicrhau y cedwir at yr egwyddor bod 'y llygrydd yn talu'. Roedd cael dealltwriaeth resymol o ddosrannu ffynhonnell o bwysau sy'n arwain ar fethiant i gyflawni amcanion yn rhan bwysig o werthuso'r mesurau. Mae hyn yn wir yn yr achosion hynny lle mae mesurau rheoleiddio'n mynd i gael eu defnyddio. Cyn bod angen mesurau ychwanegol sy'n benodol i'r safle i gyflawni amcanion, mae clustnodi ffynhonnell yn cael ei ystyried. Heb hyn fyddai hi ddim yn bosibl i asesu'r effeithlonrwydd ac felly'r buddiannau y byddai'r mesurau potensial yn eu cyflawni. Rydyn ni'n cytuno bod amgen mwy o waith yn y maes yma yn ystod cylch cyntaf y cynllun ac fel y bydd ein dealltwriaeth yn gwella bydd hyn yn caniatáu i ni gyfiawnhau defnyddio mesurau ychwanegol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Cafwyd sylwadau ar y gweithrediadau yn y cynllun yn nhermau eu perthnasedd, y partneriaid sydd eu hangen ac ar anghysonderau rhwng y brif ddogfen a'r Atodiadau, (Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad).

Bydd yr holl weithrediadau gaiff eu cynnwys yn y cynllun â buddion i'r amgylchedd dŵr ac i bobl. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o weithrediadau, o'r rhai ar raddfa fechan, sydd yn aml yn fentrau gwirfoddol fydd yn cael budd yn lleol hyd at weithrediadau graddfa fawr a chostus fydd o fudd i ddalgylchoedd cyfan.

Mae prif ddogfen y cynllun yn amcanu i grynhoi maint y gweithrediadau fydd yn cael eu cynnal ac i dynnu sylw at rai o'r gweithrediadau allweddol. Mae Atodiad C (Gweithrediadau i gyflawni amcanion) yn dynodi'r gweithrediadau niferus gaiff eu gweithredu yn ardal y basn afon yng nghylch cyntaf y cynllun.

Mae gweithrediadau wedi eu cynnwys yn y cynllun lle mae sicrwydd wedi ei roi y bydd perchnogion y gweithrediadau hynny'n eu gweithredu yn ystod cylch cyntaf y cynllun. Mae Atodiad C yn nodi'r sefydliadau a phartneriaid arweiniol ar gyfer pob gweithriad. Mewn rhai achosion byddai gweithrediadau'n cael budd o gyfranogiad mwy o bartneriaid, ac rydyn ni'n eu hannog i ddod ymlaen wrth i gynlluniau cyflenwi gael eu datblygu.

- **Ymateb i'r Ymgynghoriad:** Teimlwyd bod angen cydnabod mwy o'r gweithrediadau sy'n bodoli eisoes. Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi gwneud awgrymiadau penodol ar gyfer gweithrediadau newydd neu ail-flaenoriaethu gweithrediadau yn y drafft, ni chafwyd llawer o fanylion.

Cytunir bod angen cydnabod y gweithrediadau sydd eisoes yn bodoli'n well yn y cynllun. Mae gweithrediadau penodol nawr wedi eu rhestru yn atodiad C (Gweithrediadau i gyflawni amcanion). Mewn achosion eraill maen nhw'n fecanweithiau y gellir eu defnyddio fel modd o weithredu amrywiaeth o weithrediadau penodol mewn lleoliadau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithrediadau y gellir eu rhoi yn eu lle

nawr a'r rhai y gellir eu cadarnhau a'u gweithredu yn ystod cylch cyntaf y cynllun. Mae'r mecanweithiau ychwanegol hyn wedi eu cynnwys yn Atodiad F (Mecanweithiau ar gyfer gweithrediadau).

Rydyn ni wedi cynnwys gwybodaeth bellach ynglŷn â sut y gall cynllun a rhaglenni sefydliadau eraill, yn enwedig cyrff cyhoeddus, gael eu defnyddio i gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon trwy ymgorffori'r rhain fel polisïau ac amcanion ar gyfer eu cynlluniau eu hunain. Mae'r wybodaeth yma'n cael ei grynhoi yn y brif ddogfen a'i gyflwyno'n fwy manwl mewn Atodiad ychwanegol (Atodiad J).

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu bod gwerthusiad o effeithiolrwydd cost y mesurau'n annigonol ac yn gofyn pam nad oedd rhai mesurau wedi cael eu hasesu.

Roedd gwaith i ddeall effeithiolrwydd cost mesurau wedi ei gychwyn ar lefel genedlaethol trwy waith y Llywodraeth i sicrhau bod cyfres gyflawn o fesurau effeithiol yn eu lle i gwrdd â gofynion y Gyfarwydddeb. Fel rhan o'r gwaith hwn fe ddatblygon nhw ac fe ymgynghoron nhw ar amrywiaeth o fesurau newydd wedi eu diwygio i ddelio â materion yn ymwneud â llygredd tryledol a morffoleg. Roedd y gwaith hwn yn ystyried effeithiolrwydd cost gwahanol fesurau posibl.

Yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, bu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn arwain y Dadansoddiad Effeithiolrwydd Cost Ragarweiniol. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried:

- beth ddylid ei wneud yn y cylch cynllunio cyntaf gan ddefnyddio mesurau cenedlaethol cyson, a'r hyn sy'n digwydd os ydyn ni'n cymryd yn hirach i gwrdd â'r amcanion;
- y mathau a chostau mesurau sydd i'w pennu ar lefel genedlaethol neu'r ardal basn afon, gan leihau'r angen am ddadansoddiad manwl pellach;
- y costau cyffredinol a'r hyn sy'n fforddiadwy;
- rôl y diwydiant a sefydliadau eraill yn gweithredu'r mesurau;
- pa fesurau y gellid eu cynnwys neu ru torri allan o'r cylch cyntaf o asesiad cenedlaethol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Awgrymodd ymatebwyr y dylid blaenoriaethu mesurau ar sail pa rai sy'n fwyaf cost effeithiol.

Mae yna nifer o briodoleddau effeithiolrwydd. Roedd y Rhaglen Ymchwil Cydweithredol ar economeg y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn nodi tua 23 priodoledd o'r fath. Er y gall rhai fod yn bwysicach nag eraill, maen nhw i gyd i ryw raddau'n cael dylanwad ar effeithiolrwydd perthnasol gwanhaol fesurau. Un o'r priodoleddau pwysicaf sy'n aml yn cael ei esgeuluso yw argaeledd mecanweithiau cyflenwi effeithiol. Yr unig achosion lle nad yw'r set fwyaf cost effeithiol o fesurau wedi cael eu defnyddio yw pan fyddai'n anghymesur o ddrud i wneud hynny.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gofynnodd rhai ymatebwyr am fanylion ynglŷn â'r mesurau i'w cymryd ar lefel y corff dŵr i'w cynnwys yn y cynllun cyntaf, neu mewn cynlluniau atodol.

Dyw hi ddim yn bosibl cynnwys cymaint â hyn o fanylion ym mhrif ddogfen y cynllun. Er hynny lle gallwn ni, yn ddiamwys, glymu'r gweithredu i gorff dŵr penodol rydyn ni wedi cynnig y wybodaeth yma unai yn Atodiad C (Gweithrediadau i gyflawni amcanion) neu fe'i cyflwynir mewn fformatau gwahanol ym Mis Rhagfyr 09.

Dylid cadw mewn cof trwy nodi ble mae'r gweithrediad yn digwydd nad yw hyn o reidrwydd yn diffinio ble fydd y gweithrediad yn darparu ei fuddiannau. Gall gweithrediadau gael effaith lleoledig oddi fewn i gorff dŵr neu gallai effeithio ar ardal llawer mwy. Er enghraifft, bydd yr holl gyrff dŵr sydd i lawr yr afon o ollwng elifiant carthion yn cael budd o welliant i'r gwaith trin carthion dan sylw.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gwnaed cais am Gronfa Adfer Dalgylch / Afon tebyg i'r un yn yr Alban fyddai'n hygyrch i Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrff llywodraeth leol a'r sector wirfoddol.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgymryd â phrosiect rhychwantu er mwyn nodi opsiynau ar gyfer datblygu cronfa adfer dalgylch. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu hystyried gyda'r rhydd-ddeiliaid gyda'r bwriad o sefydlu cronfa bosibl o'r tu fewn i'r cylch cyntaf.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi rhyddhau £10M i Asiantaeth yr Amgylchedd, y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Afonydd, 'Natural England' ac eraill i gyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn Lloegr eleni. Bydd cyfran sylweddol o hyn yn mynd at ddelfio â mesurau blaenoriaethol ar gyfer hydromorffoleg h.y. cael gwared â rhwystrau blaenoriaethol i bysgod a rheoli gwaddodion.

4.8 Gweithredu

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi gweithrediadau Senario C (Cwestiynau 6 a 7 yn yr Ymgynghoriad). Roedd yna fodlonrwydd i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i weithredu'r mesurau yma, a datganiadau ynglŷn â'r hyn y gallai'r ymatebwyr ei gyfrannu. Ond, ychydig iawn o fanylion a ddarparwyd ynglŷn â sut y gallai'r mesurau gael eu gweithredu'n ymarferol.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd yna gynigion o help a cheisiadau i gael ymgynghori ar gynlluniau atodol, o bosibl ar y raddfa dalgylch. Gofynnodd rhydd-ddeiliaid sut byddai mwy o ymrwymiad gan y rhydd-ddeiliaid yn digwydd ar y lefel dalgylch a mwy o wybodaeth leol yn cael ei ddefnyddio yn y gweithredu.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Teimlwyd y dylai rôl y Panel Cyswllt newid i ganolbwyntio ar weithredu. Roedd yna rai ceisiadau i ymwneud â'r Panel Cyswllt.

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon wedi cael ei ddatblygu yn dilyn arweiniad oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth y Cynulliad, a gyda chynghor gan y Paneli Cyswllt ym mhob ardal basn afon. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael ymdriniaeth y panel cyswllt yn werthfawr iawn, ac fe fyddan nhw'n parhau i weithio gyda nhw trwy gydol y cyfnod cyflawni.

Am y ddwy neu dair blynedd nesaf bydd rôl y paneli'n newid i fonitro cynnydd cyffredinol mewn cyflenwi, paratoi ar gyfer yr ail gylch ac annog mentrau ar draws ardal y basn afon trwy eu hymdriniaeth cynrychiolydd sector. Erbyn 2012, bydd gwaith yn dechrau i ddatblygu cynlluniau'r ail gylch.

Er bod y cysyniad o gynrychiolaeth sector ar lefel ardal basn afon yn gyffredinol wedi gweithio'n dda, mae wedi dod yn amlwg nad yw'n gweddu'n dda i sefydliadau sydd wedi eu sefydlu'n lleol, yn arbennig Awdurdodau Lleol. A derbyn bod cyflawni deilliannau'r cynllun yn canolbwyntio ar weithgareddau "yn y fan a'r lle", mae'n amlwg bod angen ffyrdd ychwanegol o weithio er mwyn sicrhau'r ymwneud â'r cyflawni gorau

oddi wrth sefydliadau a phobl leol. Fe fyddwn yn archwilio ffyrdd o ymestyn y cysyniad o gyflenwi ar y cyd sydd wedi profi i fod mor llwyddiannus ar lefel ardal basn afon ar lefel dalgylch. Mae yna ddisgwyliad y bydd ffyrdd newydd o gydweithio'n helpu i gyflenwi mwy ar gyfer yr amgylchedd na'r hyn rydyn ni wedi llwyddo i'w gynnwys yn y cynllun cyntaf.

Fe fyddwn yn gweithio i drosi cefnogaeth 'mewn egwyddor' a roddwyd i fesurau gafodd eu cynnwys yn Senario C y cynllun drafft i weithredu positif yn y fan a'r lle, trwy weithio'n agos gyda phartneriaid wrth i ni ddatblygu manylion y gweithredu.

Ar hyn o bryd dyw Asiantaeth yr Amgylchedd ddim am fod yn argymhellol ynglŷn â'r trefniadau sydd i'w mabwysiadu ym mhob dalgylch. Yr unig ragofynion y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd am eu hyrwyddo fyddai bod ymdriniaeth integredig, ar draws y dalgylch, yn cael ei fabwysiadu, ac y dylai cyflawni gael ei weithredu yn y modd mwyaf cost effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn debygol iawn o olygu rhannu rolau a chyfrifoldebau yn dibynnu ar faterion a lleoliadau. Mae'n amlwg bod yna gyfyngiadau cefnogaeth weinyddol, ond gobeithir, os yw'r trefniadau cyflenwi'n cael eu rhannu'n wirioneddol, dylid gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyd-gyflawnwyr yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

4.9 Dehongliad o'r Ddeddfwriaeth a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen deddfwriaeth newydd i helpu i gwrdd â gofynion y Cynllun Rheoli Basn Afon. Roedd yna hefyd alw ar i Asiantaeth yr Amgylchedd i wella gweithredu deddfwriaeth bresennol a chael yr holl bwerau cyfreithiol angenrheidiol. Er enghraifft dylai Asiantaeth yr amgylchedd fod yn fwy parod i daclo llygredd tryledol.
- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Roedd yna bryder ynglŷn â'r ddibyniaeth ymddangosiadol ar fesurau ysgafn, gwirfoddol, a chafwyd cais gan rai ar gyfer ymdriniaeth reoleiddiol a mwy o ddefnydd o fecanweithiau newydd megis Parthau Amddiffyn Dŵr.
- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Doedd hi ddim yn glir sut y bydd gweithrediadau sy'n ofynnol gan deddfwriaeth arall, megis y Ddeddf Adnoddau Dŵr yn cyfrannu at statws da.
- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Holodd rhai ymatebwyr sut y byddai'r Cynllun yn cysylltu gyda rheoliadau Rhwystro a Rheoli Llygredd a defnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn nodi y dylai aelod-wladwriaethau gael yn eu lle "fesurau sylfaenol" i reoli'r amgylchedd dŵr. Yn Lloegr a Chymru mae'r rhan fwyaf o'r mesurau sylfaenol hyn eisoes yn eu lle trwy deddfwriaeth sy'n bodoli'n barod – yn fwyaf nodedig Y Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a'r Ddeddf Dŵr 2003.

Mae ganddon ni ddyletswyddau a phwerau i atal a rheoli llygredd. Fe fyddwn yn parhau i ddefnyddio'r rhain er mwyn gosod a gorfodi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau, er mwyn delio â'r perygl o achosion o lygredd, a thaclo llygredd tryledol. Bydd amodau newydd mewn trwyddedau amgylcheddol yn cael eu pennu lle bo'r angen i gwrdd ag amcanion ac anghenion y Cynllun Rheoli Basn Afon newydd. Bydd ein polisi digwyddiadau a gorfodi'n parhau i dargedu gweithredu yng nghyd-destun amcanion ac anghenion newydd, tra'n cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio wedi ai seilio ar risg a Chôd Cydymffurfiaeth Rheolyddion.

Mae rhannau o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr yn cael eu trosglwyddo i'r gyfundrefn Rheoliadau Caniatâd Dŵr. Bydd y rhain yn cynnig llwyfan cyffredin ar gyfer gorfodaeth troseddau, ac ar gyfer penderfynu ar yr holl drwyddedau amgylcheddol. Bydd hyn yn symleiddio ac yn hwyluso'r broses reoleiddio gyffredinol a'i gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Lle byddwn yn credu na fydd ein pwerau presennol, neu fentrau llai llym neu wirfoddol, yn gwneud y gwaith fe fyddwn yn hyrwyddo mecanweithiau rheoleiddiol megis Parthau Gwarchod Dŵr (Lloegr yn unig). Rydyn ni'n cynnal peilot yn Lloegr i ddeall yn well sut y gall Parthau Gwarchod Dŵr gael eu defnyddio, ac i sicrhau ymdriniaeth fwy llyfn i'w defnydd yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar amrywiaeth o ymdriniaethau eraill, a'r offer gorau i ddelio â llygredd tryledol. Gall rhai o'r rhain fod ar gyfer y defnydd wedi ei dargedu o bwerau rheoleiddiol, megis y Rheolau Gorfodol Cyffredinol. Bydd eraill yn gweithio trwy gymhellion y farchnad, manylebau cynnyrch, partneriaethau cymunedol a ffermio sensitif i'r dalgylch.

Mae'r system trwyddedu echdynnu a gafodd ei sefydlu gan y Ddeddf Adnoddau Dŵr 1963, a'i diwygio yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991 a'r Ddeddf Dŵr 2003 yn gyffredinol wedi gwrthsefyll prawf amser fel modd o awdurdodi echdynnu, ond mae iddo gyfyngiadau yn ei allu i adolygu trwyddedau. Bydd rhai echdyniadau sydd ar hyn o bryd wedi eu heithrio o drwyddedu echdynnu yn cael eu dwyn i mewn i reolaeth dan y Ddeddf Dŵr 2003. Mae mecanweithiau ychwanegol megis y Strategaethau Rheoli Echdynnu Dalgylch a'r Cynllun Adnoddau Dŵr Cwmnïau Dŵr yn darparu'r modd i asesu effaith echdynnu ac i ddod o hyd i atebion lle nad yw'r effeithiau ar yr amgylchedd yn gynaliadwy.

Cafodd nifer o drwyddedau echdynnu sydd eisoes yn bodoli eu rhoi dros byth, ac mae gan rai'r potensial i effeithio'r amgylchedd er gwaeth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn gweithio ar y mater hwn am beth amser dan ei Raglen Adfer Echdynnu Cynaliadwy, ond gall y mecanweithiau cyfreithiol i newid y trwyddedau yma fod yn hir, ac efallai y byddai'n rhaid i'r Asiantaeth dalu iawndal. Gallai echdyniadau cwmnïau dŵr effeithio safleoedd y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr trwy'r broses adolygu cyfnodol o fuddsoddiad (PR09) i ariannu newidiadau. Mae'r gost o newid echdyniad / dod o hyd i ffynhonnell newydd o ddŵr yn uchel iawn ac fe'i hysgwyddir gan y defnyddiwr dŵr. Gall yr amser i gynllunio a gweithredu'r newidiadau hyn hefyd fod yn hir er mwyn osgoi peryglu cyflenwadau dŵr cyhoeddus.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghori ar gynigion ynglŷn â'r syniad y dylai'r holl drwyddedau echdynnu fod â therfyn amser arny'n nhw, fyddai'n caniatáu adolygiadau cyfnodol a newidiadau i gael eu gwneud i drwyddedau echdynnu.

Fe fyddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth i hyrwyddo newid deddfwriaethol i gwrdd â sialensiau newid hinsawdd, twf ac arloesedd.

Mynegwyd pryderon y gallai'r Cynllun Rheoli Basn Afon orfodi diwydiannau gyda thrwyddedau Rhwystro a Rheoli Llygredd ac sy'n defnyddio'r dechnoleg orau ar gael fynd y tu hwnt i'r dechnoleg honno. Byddai'n rhaid ystyried unrhyw ofyniad o'r fath o ran costau anghymesur a dichonoldeb technegol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd yna geisiadau am fwy o wybodaeth am y cysylltiad rhwng y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a'r Mesur Morol.

Mae'r Mesur Morol a Mynediad Arfordirol (sy'n mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd) yn bwriadu cyflwyno fframwaith gynllunio strategol ar gyfer yr amgylchedd morol ar draws Lloegr a Chymru, wedi ei chefnogi gan ddatganiad polisi morol ar draws Prydain. Mae'r mesur yn cynnwys cynigion ar gyfer system newydd o drwyddedu morol, parthau cadwraeth morol ar gyfer amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn Lloegr a dau gorff trosglwyddo newydd - Y Sefydliad Rheoli Morol a'r Awdurdodau Pysgodfeydd Mewndirol a Chadwraeth. Yng Nghymru bydd y swyddogaethau datganoledig yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth y Cynulliad. Dylai'r ddeddfwriaeth newydd yma ddarparu'r fframwaith angenrheidiol ar gyfer gweithredu gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Forol (ar gyfer Statws Amgylcheddol Da) sy'n gyflenwol â, ac yn gorgyffwrdd y Cynllun Rheoli Basn Afon mewn dyfroedd arfordirol.

Ar yr arfordir ac mewn morydau bydd cynlluniau morol yn gorgyffwrdd y Cynllun Rheoli Basn Afon. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y Cynulliad ac eraill i sicrhau bod datblygiad y datganiad polisi morol a'r canllaw cynllunio morol yn gyson â, ac yn cefnogi cyflenwi mesurau'r Cynllun Rheoli Basn Afon er mwyn sicrhau statws da. Felly hefyd rydyn ni'n gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod penderfyniadau ar drwyddedu a rheoli pysgodfeydd mewndirol mewn morydau a dyfroedd arfordirol yn cydymffurfio ag amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon. Mae dynodi parthau cadwraethol morol yn y dyfroedd hyn yn rhoi cyfle pellach i gyfrannu at gyflawni Statws Ecolegol Da.

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Gofynnodd ymatebwyr sut byddai gofynion Erthygl 4(7) o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu hateb yn y cynllun a sut bydd y datblygiadau newydd yn cael eu trin.

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn nodi angen am asesiad o'r effeithiau'r holl addasiadau corfforol newydd er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n achosi dirywiad yn statws corff dŵr daear neu statws ecolegol neu botensial corff dŵr wyneb neu atal corff dŵr rhag cyflawni ei amcanion ecolegol. Mae Erthygl 4(7) yn egluro'r amgylchiadau lle mae methiant i gwrdd â rhai o amcanion penodol Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn cael ei ganiatáu. Pan fo addasiad newydd yn achosi i gorff dŵr i fethu rhai amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ond yn cwrdd â chywres o brofion a geir yn Erthygl 4(7) yna gellir caniatáu'r addasiad. Mae Erthygl 4(7) wedi bod yn ofyniad ers Rhagfyr 2006. Mae asesiadau Erthygl 4(7) wedi cael eu cynnal ar gyfer 'datblygiadau newydd' a ddigwydd rhwng Rhagfyr 2006 a Mawrth 2009 a chaiff y rhain eu cofnodi yn y Cynllun Rheoli Basn Afon (Atodiad B). Dim ond 3 chynllun gafodd eu cofnodi fel achosi dirywiad mewn statws a phasio profion Erthygl 4(7).

Bydd angen asesiad ar gyfer addasiadau corfforol mewn cyrff dŵr yn y dyfodol er mwyn penderfynu a fyddan nhw'n cael effaith ar amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ysgrifennu canllaw ar gyfer sefydliadau sy'n ymgymryd â datblygiadau cyrff dŵr. Bydd hyn yn amlinellu sut mae ymgymryd ag asesiad Erthygl 4(7) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

4.10 Newid Hinsawdd

- ***Ymateb i'r Ymgynghori:*** Roedd ymatebwyr yn cefnogi canlyniad yr asesiad yn Atodiad H yn nhermau newidiadau i risgiau pwysau o ganlyniad i newid hinsawdd ac effeithiolrwydd y gweithrediadau a nodwyd mewn hinsawdd sy'n newid. Ond roedden nhw am fwy o wybodaeth ar sut y cynhaliwyd asesiad Atodiad H.

- **Ymateb i'r Ymgynghoriad:** Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod peth o'r testun yn y brif ddogfen yn orsyml ac yn gamarweiniol.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Gwnaeth yr ymatebwyr sylw ar y defnydd o ragamcaniadau UKCP09 ac fe wnaed sylw y byddai angen ystyried newid hinsawdd ymhellach mewn rheoli basn afon cyfredol ac y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd osod esiampyl yn hyn o beth.

Mae Atodiad H yn edrych ar effeithiau newid hinsawdd ar bwysau, gweithrediadau a chyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Ceir crynodeb o effaith hyn yn y prif destun. Roedd yr asesiad yn ansoddol. Cafodd mesurau eu sgrinio trwy ystyried a oedden nhw'n debygol o fod yn anhyblyg neu'n agored i amodau dan hinsawdd sy'n newid. Ni fwriadwyd yr asesiadau yma i hysbysu gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain. Mae asesiadau mwy grymus wedi ei gwneud yn gynt ar fesurau sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n dod trwy brosesau megis PR09.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Atodiad H y cynllun drafft yn cynnwys rhagdybiaethau UKCIP02 ac fe wnaed yr asesiadau o bwysau a mesurau gyda'r rhagdybiaethau hyn mewn cof. Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael ar yr adeg pan gafodd y cynllun drafft ei ysgrifennu.

Ar 18fed Mehefin 2009 cafodd rhagdybiaethau newydd UKCP09 eu rhyddhau. Rydyn ni wedi rhoi gwybodaeth UKCP09 yn lle gwybodaeth UKCIP02 yn yr Atodiad H diwygiedig. Rydyn ni hefyd wedi ail-sgrinio'r set ddiwygiedig o fesurau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth newydd yma.

Nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw nifer o faterion yn ymwneud â Newid Hinsawdd nad oedd wedi eu rhestru yn yr Atodiad: megis newidiadau i pH mewn dŵr môr. Mae testun ychwanegol wedi ei ychwanegu i'r Atodiad H diwygiedig i lenwi nifer o'r bylchau hyn.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Cafwyd anghytundeb ynglŷn ag o oedd mesurau wedi cael eu trin yn ddigonol wrth ystyried opsiynau ar gyfer gweithredu neu fod effaith carbon cyffredinol y rhaglen a ddewiswyd wedi cael ei asesu'n ddigonol.

Rydyn ni wedi ychwanegu testun yn Atodiad E y cynllun er mwyn nodi sut oedd cost y carbon wedi ei gynnwys mewn gwerthusiad opsiwn. Ar gyfer y cynllun cyntaf dyw hi ddim ond wedi bod yn bosibl i feintoli costau'r carbon sy'n gysylltiedig â mesurau ansawdd Adolygiad Cyfnodol 2009. Dyma ble rydyn ni'n disgwyl y bydd yr effeithiau carbon mwyaf sylweddol yn digwydd oherwydd bydd y gweithrediadau'n cynnwys anghenion ar gyfer triniaeth ychwanegol, adeiladu gweithfeydd newydd neu uwchraddio gwaith sydd eisoes yn bod. Mae'r rhan fwyaf o weithrediadau eraill yn debygol o gael lefel isel o effaith gan eu bod yn archwiliadau, partneriaethau neu annog rheoli arfer gorau. Rydyn ni'n cytuno ar gyfer cylchoedd dilynol, mae angen mynd i'r afael â'r oblygiadau carbon yn ddigonol er mwyn hyrwyddo mesurau ynni isel ar gyfer pwysedd.

Ar gyfer effaith cyffredinol ar yr hinsawdd o'r gweithrediadau yma yn y cynllun, mae'r adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol yn disgrifio'r rhaglenni o fesurau. Mae adroddiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae adroddiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi'r effeithiau positif a negyddol sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau yn y cynllun.

- Roedd ymatebwyr yn nodi'r angen i ystyried materion polisi ar raddfa eang wrth ystyried y blaenoriaethau rhwng, er enghraifft, amcanion amgylchedd dŵr a chynhyrchu bwyd neu ynni adnewyddol. Yn benodol, dylai Cynllun Gorllewin Cymru gynnwys Ynni Dŵr a charthu'r môr.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Nodwyd y bydd ein coedwigaeth yn cael effaith bositif ar liniaru ac addasu, er enghraifft mewn lliniaru effaith pwysau thermol, perygl llifogydd a storio carbon.

Rydyn ni'n cytuno y bydd angen mwy o ystyriaeth ar newid hinsawdd wrth i ni ddatblygu cylchoedd cynllunio dilynol. Mae cryn dipyn o waith yn mynd ymlaen oddi fewn i'r llywodraeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a sefydliadau eraill. Dylai pob polisi dalu sylw i Newid Hinsawdd a bydd gofyn cael cyfeiriad clir i sicrhau na fydd y rhain yn gwrthdaro gydag amcanion Newid Hinsawdd.

Bydd gweithredu'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn helpu safleoedd targed sydd eisoes mewn perygl o bwysau sy'n bodoli eisoes, yn atal dirywiad ac yn gwella cyflwr ecolegol yr amgylchedd dŵr. Fel y pwysleisiwyd yn "Newid Hinsawdd, Addasu ar Gyfer Yfory" dylai hyn fagu gwytnwch yn ein systemau dyfrol yn erbyn peryglon eraill newid hinsawdd. Mae yna angen hefyd i ddefnyddio cynhwysedd dalgylchoedd i ddal dŵr ac i ryddhau'r dŵr hwnnw'n araf er mwyn helpu i osgoi effeithiau newid hinsawdd rhag llifogydd a sychder.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwladol (ar ran Partneriaeth Bioamrywiaeth Prydain sydd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn bartner) wedi cyhoeddi 'Conserving biodiversity in a changing climate: guidance on building capacity to adapt' (2007).

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi 'Ymateb i'n hinsawdd sy'n newid' – ymgynghoriad ar gynllun gweithredu addasiad newid hinsawdd ar gyfer Cymru (2007), sy'n amlinellu'r effeithiau a ddisgwylir yng Nghymru a'r gweithrediadau sydd eu hangen mewn ymateb.

Mae'r ddau beth yma'n cadarnhau y dylai cadw'r bioamrywiaeth presennol a lleihau pwysau newydd a'r rhai sy'n bodoli fod yn egwyddorion craidd rydyn ni'n eu defnyddio fel sail i'r strategaeth addasu newid ar gyfer ecoleg dŵr croyw.

Mae hefyd yn eglur y bydd rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd i reoli ein hamgylcheddau trefol a gwledig i gydbwyso cyflawni nifer o amcanion megis diogelwch u cynhyrchi ynni adnewyddol ac ansawdd amgylcheddol.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd nifer fawr o ymatebwyr o sbectrwm eang o sectorau ym meddwl y dylai rheoli basn afon fod yn ganolbwynt i adfywio nodweddion naturiol y dalgylchoedd er mwyn magu gwytnwch yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.

Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn cytuno'n gyffredinol bod adfywio "naturioldeb" dalgylchoedd yn helpu i amddiffyn yn erbyn unrhyw risg pellach o newid hinsawdd. I'r perwyl hwn rydyn ni'n ymwneud ag ymdriniaeth debyg 'Wetland Vision for England' a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar reoli gwlypdiroedd. Bydd profiad a gasglwyd gan bartneriaid a ni'n hunain yn helpu i hysbysu gwaith yn ystod y cylch cyntaf o'r cynllun.

Roedd gweithrediadau eisoes wedi eu cynnwys yn y cynllun drafft ar gyfer Lloegr a Chymru. Yn y cynllun hwn y gweithrediadau yw:- (cynnwys gweithrediadau perthnasol.

Bydd y prosiectau a restrir uchod oddi fewn i ardal y basn afon ac mewn mannau eraill yn cynyddu'n gwybodaeth o dechnegau effeithiol y gellir eu defnyddio'n ehangach yn y cylchoedd cynllun diweddarach.

Mae'r bwriad i wella gwytnwch dalgylch wedi ei atgyfnerthu ac mae nawr yn dechrau cael ei gyflawni trwy, er enghraifft weithrediadau'n dod o "Arolwg Pitt" ddaeth ar ôl y llifogydd yn 2007 a thrwy'r fenter rheoli risg o lifogydd "Making Space for Water". Mae cynlluniau rheoli dŵr wyneb, sydd wedi eu cynnig o'r mentrau hyn wedi eu bwriadu i atal llif dŵr ffo cyflym trwy ddefnyddio dulliau mwy naturiol a chynaliadwy i reoli dŵr.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Nododd ymatebwyr yr angen i ddatblygu rhaglenni monitro i ganfod newid yn yr hinsawdd, yn enwedig monitro tymheredd y dŵr ac i ystyried newid hinsawdd mewn sefyllfa wrthrychol.

Mae tymheredd dŵr yn ddangosydd defnyddiol o newid hinsawdd ac mae sefydliadau Prydeinig yn casglu llawer o ddata arno. Hyd yma dyw'r data hwn ddim wedi cael ei storio mewn un lle na'i ddadansoddi i geisio arwydd o newid hinsawdd.

Rydyn ni'n datblygu Archif Tymheredd Dŵr i ddelio â'r broblem hon. Bydd hyn yn dechrau gyda data afonydd ac yn symud ymlaen o safleoedd llynnoedd a morydau. Unwaith y bydd hyn wedi ei gwblhau fe fyddwn yn edrych ar y gofynion rhwydwaith monitro tymor hir ac yn asesu pwysigrwydd unrhyw arwyddion o dymheredd a ganfyddir ar gyfer amcanion y Cynllun Rheoli Basn Afon.

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd y rhai a ymatebodd am weld ymdriniaeth fwy lleol o senarios tebygol yn y dyfodol er enghraifft ar amcangyfrif ar unrhyw achosion o lifogydd yn y dyfodol fel y gellir nodi opsiynau i ddelio â'r materion hyn.

Cynhelir ymchwil i ddefnyddio modelau rhagweld yn lleol ar gyfer rheoli tir. Yng Nghymru, mae darpariaethau yng Nghynllun Lefel Uwch Glastir i gynnal ymarferion rheoli tir er mwyn lleihau perygl llifogydd, anelir y rhain yn benodol at leihau perygl i adeiladau yn hytrach na thir. Bydd y bwlch yn yr ymchwil presennol yn cael ei godi fel problem yng Nghymru a byddwn yn croesawu gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector amaethyddol i ddechrau canfod sut y gellir llenwi'r bwlch ac ystyried datblygu dewisiadau sut y gall ffermwyr ddelio â hyn.

4.11 Asesiad Effaith, costau a buddiannau

- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd yna bryder ynglŷn â'r gyfran fawr o'r costau sy'n mynd i'r diwydiant dŵr.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd yna ofidiau am faint y cynnydd mewn biliau dŵr sydd ei angen i ariannu buddsoddiadau'r diwydiant dŵr, a'r effaith ar gymdeithas. Yn ogystal â hyn roedd gofid am gyflwyno mesuryddion dŵr gorfodol a'r potensial o gael 'todi dŵr'.
- **Ymateb i'r Ymgynghori:** Roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o wybodaeth am gostau anghyfartal a dichonolrwydd technegol.

Mae'r Asesiad Effaith wedi cael ei ddiwygio yng ngolau ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yr Asesiad Effaith terfynol yn disgrifio'r achos cyfeirio o weithrediadau cyfredol (Senario A yn y cynllun drafft) ond mae'r prif ffocws ar gostau a buddiannau gweithredu'r prif opsiwn polisi. Mae hyn yn berthnasol i'r gweithrediadau polisi newydd sy'n codi o gyflwyno'r Cynllun Rheoli Basn Afon i'r sectorau preifat a chyhoeddus.

Bydd y gyfran fwyaf o'r costau yn y prif opsiwn polisi'n parhau i fod yn gysylltiedig â'r sector dŵr. Mae hyn yn cydymffurfio â chasgliadau'r Rhaglen Ymchwil Cydweithredol dan arweiniad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a ymgymrodd ag asesiad effeithiolrwydd cost gychwynnol o fesurau. Roedd y gwaith hwn yn tanlinellu mai'r sicrwydd mwyaf ddeuai o'r deilliannau oedd y rhai trwy'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant dŵr yn hytrach na sectorau eraill (e.e. amaeth) lle'r oedd angen ymchwiliadau pellach. Mae hefyd yn gyson â'r Asesiad Effaith Cenedlaethol wedi ei ddiweddarau a gyhoeddwyd ym Mis Chwefror 2008 oedd yn argymhell defnyddio dull cyfnodol o weithredu'r Cynllun Rheoli Basn Afon dros 3 chylch. Y dybiaeth yn yr Asesiad Effaith Cenedlaethol oedd trwy ymgymryd ag archwiliadau yn y cylch cyntaf gellid cymhwyso set o fesurau wedi eu targedu'n well ac yn fwy cost effeithiol mewn cylchoedd dilynol, gan felly leihau'r gost gyffredinol o gyflwyno deilliant targed y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Ein hymdriniaeth ers fersiwn drafft yr Asesiad Drafft yw adolygu'r wybodaeth am y gost a sicrhau mai dim ond mesurau newydd (yn hytrach na rhai sydd eisoes yn bodoli) sy'n cael eu cynnwys ac i sicrhau bod y costau sy'n ymwneud â'r mesurau hyn yn gadarn. Roedd yna hefyd nifer o fesurau gyda gwybodaeth am gostau ar goll rydyn ni nawr wedi ei gynnwys yn yr asesiad.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ymgymryd ag asesiad cost dosraniadol o fesurau yn unol â'r Canllaw Cynllunio Basn Afon Gweinidogol (Cyfrol 2). Roedd y gwaith hwn yn cymryd i ystyriaeth fudd cost ac ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad cymheiriad o'r gwerthoedd buddiannau a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Terfynol er mwy sicrhau bod y gwerthoedd a ddefnyddir yn gywir. Mae'r ymdriniaeth yn cael ei egluro'n glir mewn dogfen ategol gaiff ei chyhoeddi'r un pryd â phob un o Asesiadau Effaith Cynllun Rheoli Basn Afon.

Trwy Raglen Ymchwil Gydweithredol mae'r Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu canllaw ar y dystiolaeth sydd ei angen i gyfiawnhau costau anghymesur neu benderfyniadau am gostau dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Caiff hyn ei gynnwys yn y Canllaw Cynllunio Basn Afon Cyfrol 1 a 2. Hefyd mae yna ganllaw gan yr Undeb Ewropeaidd ar y defnydd o gostau Eithrio ac Anghymesur, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei gymryd i ystyriaeth yn ei asesiadau.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr yn dilyn y canllaw ar gyfer dilyn y canllaw ar gyfer dadansoddi costau anghymesur ar gyfer y diwydiant dŵr. Roedd y canlyniadau o'r dadansoddiad yn dangos bod gweithrediadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, PR09, wedi cael effaith isel yn gyffredinol ar filiau cwsmeriaid dŵr ac effaith prin iawn ar dlodi dŵr.

Mae costau anghymesur nid yn unig yn ymwneud â'r cydbwysedd cyffredinol rhwng costau a buddiannau ond hefyd â dosbarthu'r costau a'r buddiannau hynny (pwy sy'n talu a phwy sy'n ennill). Dylid nodi y gall canlyniadau dosbarthu negyddol fod yn fyrhoedlog – er enghraifft gellir gwneud iawn am golli busnes a swydd trwy gynydd yng ngweithgaredd cwmnïau eraill oddi fewn neu'r tu allan i'r ardal yr edrychir arni.

4.12 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cafwyd ymgynghoriad hefyd ar yr Adroddiad Amgylcheddol oedd yn ganlyniad i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft. Mae crynodeb o'r sylwadau allweddol a wnaed ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi ei roi isod. Bydd ymateb llawn i'r holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu darparu yn y ddogfen Datganiad Manylion, gaiff ei chyhoeddi gyda'r cynlluniau cyntaf ym Mis Rhagfyr 2009.

4.12.1 Egwyddorion a chyfeiriad cyffredinol

Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gyffredinol bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cydymffurfio â'r gyfarwydddeb a'i fod wedi ei strwythuro'n dda, ond roedd rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo y gallai'r cysylltiad gyda'r cynllun drafft a chynlluniau eraill megis y strategaethau gofodol rhanbarthol fod yn gryfach. Derbyniwyd rhai awgrymiadau am gynlluniau a pholisïau ychwanegol y dylid eu hystyried.

Cynigiwyd meini prawf asesiadau pellach. Ond ymgynghorwyd ar y meini prawf a ddefnyddiwyd yn y cyfnod rhychwantu ac ni fydd yr Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei newid, allwn ni ddim â chynnwys y rhain yn yr Asesiadau Amgylcheddol Strategol.

Roedd rhai ymatebwyr yn sylwi ar yr angen i gael mwy o dystiolaeth ar sut mae'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol wedi dylanwadu ar y cynllun. Yn fwy penodol, roedd yna deimlad cyffredinol y gallai'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol fod yn gryfach wrth ddelio ag anghenion amgylcheddol a newid hinsawdd.

4.12.2 Cyflwyniad a strwythur

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yna ormod o wybodaeth yn yr atodiadau ac nad oedd digon o hwn wedi ei gyflwyno ym mhrif gorff yr adroddiad.

Nododd sawl sefydliad yr hoffon nhw weld safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) yn cael eu cynnwys yn yr Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ogystal â rhai o bwysigrwydd rhyngwladol. (Ardaloedd o Warchodaeth Arbennig, Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig).

4.12.3 Asesiad Amgylcheddol

I raddau helaeth roedd ymatebwyr yn cytuno â'r asesiad o effeithiau ac arwyddocâd fel y'i cyflwynir yn yr Asesiad Amgylcheddol. Fe dderbynion ni beth gwybodaeth ddefnyddiol, yn enwedig ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ac effeithiau ar fordwy a dyfrffyrdd. Ond gwnaeth rhai ymatebwyr sylw am arwyddocâd gweithrediadau trefniadol a hyrwyddol, gan ofyn pam fod hyn wedi ei bennu'n ddi-nod ac felly wedi ei dorri allan o'r asesiad.

Fe dderbynion ni nifer o sylwadau a syniadau ar gyfer lliniaru ychwanegol, yn ychwanegol at yr hyn a gynigiwyd gan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid defnyddio dangosyddion ychwanegol i fonitro effeithiau gan y teimlid bod rhai o'r dangosyddion a gynigiwyd yn rhy gyffredinol ac na fydden nhw'n helpu wrth asesu effeithiau'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Nodwyd yr angen am weithdrefn i ymateb i effeithiau gwrthwynebus trwy fonitro.

4. 13 Camgymeriadau a gwallau yn y Cynllun Drafft Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at gamgymeriadau a gwallau yn y Cynllun drafft. Mae llawer o'r pwyntiau hyn wedi'u trafod yn y crynodeb uchod, gan gynnwys:

- afonydd mewn dalgylchoedd anghywir
- cyfeiriadau anghywir at ddogfennau cynllunio Cymru
- gwahaniaeth rhwng gwybodaeth yn y prif destun ac yn Anecsau B, C ac H
- gweithredoedd yn y senarios anghywir, yn benodol gweithrediadau senarios B a C sy eisoes yn cael eu cyflawni ac y dylid eu symud, felly, i senario A. Sylwyd ar hyn ar gyfer dwr o byllau mwyn, gweithredoedd yn nalgylch Ogwr i Dawe ac ar gyfer mabwysiadu côd ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy.
- anghysonderau mewn mesurau Cenedlaethol rhwng Ardaloedd Basn Afon.
- *What's in my Back Yard* – Anecs B yn anghyson gyda'r wybodaeth sydd yno
- nid yw Parthau Perygl Nitradau a Pharthai Amddiffyn Dwr yn broblem fawr yng Nghymru a dylid eu dileu
- diffyg cyfuno gyda chynlluniau a pholisïau eraill
- dim cyfeiriad at gadwraeth y tirlun na chrybwyll problemau o'r fath mewn tirluniau gwarchodedig megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol.
- dim cyfeiriad at Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol
- nid oedd pob Ardal Gwarchod Dŵr Yfed wedi'u dangos ar y map

Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cywiro'r gwallau a nodwyd yn ystod ymgynghori a bydd hyn yn cynnwys Sicrwydd Ansawdd trylwyr cyn cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Os bydd yn berthnasol i Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, bydd yr hyn a adawyd allan yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Basn Afon gyntaf.

5 Y camau nesaf

Mae croeso i unrhyw unigolyn sydd am ymchwilio'u hymatebion ymhellach, neu'r pwyntiau a wnaed yn y ddogfen hon, yn fwy manwl i gysylltu â ni.

Bydd ymatebion o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i hysbysu datblygiad ac/neu gyflwyno'r Cynllun Reoli Basn Afon Gorllewin Cymru gyntaf. Bydd y cynllun yn egluro'r materion sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a'r camau y cynllunnir eu cymryd i'w wella rhwng 2009 a 2015.

Bydd yr holl Gynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraeth i gael ei gymeradwyo ar 22 Medi 2009 a chaiff ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2009. Unwaith y bydd y cynllun wedi ei gyflwyno i'r Llywodraeth ym Mis Medi bydd copi o'r Cynllun hefyd ar gael i'w weld ar ein gwefan.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu'r ffyrdd y bydd y Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael ei gyflwyno'n sylfaenol. Bydd gan y Paneli Cyswllt rôl ac mae angen datblygu'r mecanweithiau cyflwyno hefyd. Ar lefel leol gall fod yna angen am grwpiau cyflwyno dalgylch, prosiectau partneriaethau, gweithio traws-sector ac yn y blaen. O'r ymatebion a dderbyniwyd mae nifer o unigolion a sefydliadau wedi rhoi eu cefnogaeth i'r Cynllun a'u parodrwyd i helpu i wireddu'r gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Cysylltir â'r rhain hefyd i ddatblygu syniadau, cynlluniau gweithredu a'r atebion maen nhw wedi eu cynnwys yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Mae mwy o wybodaeth am y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a chyflawni Cynlluniau Rheoli'r Basn Afon ar ein gwefan www.environment-agency.gov.uk/wfd. Neu gallwch gysylltu â:

Ceri Jones, Rheolwr Rhaglen Basnau Afonydd Cymru, Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

E-bost: westernwalesRBD@environment-agency.gov.uk
Ffôn: 02920 468864

Atodiad 1 Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin
Cymru Drafft – Ffeithiau a Ffigurau

DYDDIAD	SECTORAU	AMCAN	FFEITHIAU A FFIGURAU (dyw presenoldeb mewn digwyddiadau ddim yn cynnwys staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru)
8 Ion 2009 Lansiad i Weinidogion	Amrywiol	Codi Ymwybyddiaeth	Lansio Cynlluniau Rheoli Basnau Afon ar gyfer Gorllewin Cymru, Afon Dyfrdwy a'r Hafren (25 yn bresennol) Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg, canlyniadau cefnogol yn y wasg/cyfryngau
10 Ion 2009 Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De Orllewin Cymru	Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.	Codi Ymwybyddiaeth	Prif Gynllunwyr a'r Staff Cynllunio (24 yn bresennol)
14 Ion 2009 Briffio Brecwast ar gyfer staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Mewnol	Codi Ymwybyddiaeth	Trosolwg o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ble rydyn ni nawr a'r modd y byddwn yn ymwneud ag eraill yn ystod yr ymgynghoriad
27 Ion 2009 cyfarfod Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Defnyddwyr Dŵr	Codi Ymwybyddiaeth	Cyfarfod Economeg (10 yn bresennol)
29 Ion 2009 Cyfarfod Pysgodfeydd Ecoleg a Hamdden Asiantaeth yr Amgylchedd	Genweirio a Chadwraeth	Codi Ymwybyddiaeth	Mae rhai aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Pysgodfeydd, Ecoleg a Hamdden nawr yn mynychu lansiad Gorllewin Cymru ar 18 Chwef (20 yn bresennol)
18 Chwef 2009 Lansiad, Canolfan Bywyd Gwylt, Cilgerran	Amrywiol	Codi Ymwybyddiaeth	Lansiad (19 yn bresennol) Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg, canlyniadau cefnogol yn y wasg/cyfryngau
25 Chwef 2009 Cyfarfod Cyswllt Dwr Cymru Welsh Water	Y Diwydiant Dŵr	Codi Ymwybyddiaeth	Canolbwyntio ar ddosbarthiad y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Codwyd diddordeb ar asesiadau carbon ar gyfer cynlluniau a sut mae'r egwyddor '1 allan pawb allan' yn cael ei gweithredu

DYDDIAD	SECTORAU	AMCAN	FFEITHIAU A FFIGURAU (dyw presenoldeb mewn digwyddiadau ddim yn cynnwys staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru)
6 Mawrth 2009 cyfarfod Comisiwn Coedwigaeth Cymru	Comisiwn Coedwigaeth	Sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n gallu cyflawni'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	Archwilio'r potensial ar gyfer mwy o weithio mewn partneriaeth a sut y gallwn ddatblygu achos busnes ar gyfer rhaglen fwy uchelgeisiol o fesurau yn senario C. (4 yn bresennol)
12 Mawrth Cyfarfod gyda Phartneriaeth Afon Barlwyd	Pysgodfeydd	Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymateb	Roedd y grŵp eisoes yn ymwybodol o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Gofynnodd y grŵp am gael mwy o wybodaeth er mwyn helpu i lunio'u hymateb i'r ymgynghoriad
12 Mawrth Cyfarfod Tîm Cynllunio Dŵr Cymru Welsh Water	Y Diwydiant Dŵr	Sut mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn rhyngwynebu â materion cynllunio potensial	Cyfle i hyrwyddo'r ymgynghoriad Cynllun Rheoli Basn Afon Drafft a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mewn cydweithrediad â rhaglen Dŵr Cymru Welsh Water ar gyfer cyfarfod ag Awdurdodau Lleol i drafod materion cynllunio a'r diwydiant dŵr (6 yn bresennol)
12/13 Mawrth Gweithdy Llywodraeth y Cynulliad	Y Llywodraeth	Codi Ymwybyddiaeth	Adborth cadarnhaol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar y gweithdy mesurau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Rheoli Basn Afon Drafft gydag adrannau polisi eraill. Hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ddatblygu uchelgais pellach oddi fewn i'r cynllun
18 Mawrth Y Gyfarwydddeb Fframwaith Coetiroedd a Dŵr	Rheoli coetiroedd	Codi Ymwybyddiaeth	Cyfle i godi ymwybyddiaeth ynghylch sut y gall rheoli coetiroedd gwrdd ag amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr
20 Mawrth Cyfarfod gyda Phrifysgol Bangor	Ymchwil/ Prifysgolion	Codi Ymwybyddiaeth	Hoffai Adrannau Ymchwil gael eu cynnwys mewn digwyddiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwyddoniaeth yn chwarae rhan mewn cyflawni'r Cynlluniau
26 Mawrth Cyfarfod 'Future Forest', Y Fenni	Coedwigaeth	Codi Ymwybyddiaeth	Wedi trafod y buddiannau y gall coed a choetiroedd eu cyflwyno wrth gyflawni'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, y cysylltiadau rhwng y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr â Chynllun Rheoli Llifogydd mewn Dalgylch a newid hinsawdd (12 yn bresennol)

DYDDIAD	SECTORAU	AMCAN	FFEITHIAU A FFIGURAU (dyw presenoldeb mewn digwyddiadau ddim yn cynnwys staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru)
27 Mawrth Panel Cyswllt Gorllewin Cymru	Pob un	Diweddariad ar gynnydd a gweithrediad au sydd i'w cyflawni yn ystod y 3 mis nesaf	Cyfarfod y Panel Cyswllt <ul style="list-style-type: none"> Trafodaeth ar y cynllun cyfathrebu a digwyddiadau i hyrwyddo'r ymgynghoriad Ymatebion hyd yma a'r hyn sydd angen ei gyflawni yn ystod y 3 mis canlynol (8 yn bresennol)
22 Ebrill Cyfarfod Pwyllgor Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru / Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	Amrywiol	Diweddariad ar gynnydd a gweithrediad au sydd i'w cyflawni	Y pwyllgor y cael y wybodaeth ddiweddaraf ar gerrig milltir a materion yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft (5 yn bresennol)
23 Ebrill Gweithdy Basnau Afon, Abertawe	Amrywiol	Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymatebion	Cipio cynulleidfa eang i drafod y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft Ac anogwyd y cynrychiolwyr i ymateb i'r ymgynghoriad (21 yn bresennol) (gwahoddwyd 270) Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg. Cynhyrchwyd adroddiad yn dilyn y digwyddiad
27 Ebrill Cyfarfod gyda'r Comisiwn Coedwigaeth	Comisiwn Coedwigaeth Cymru	Trafod cynlluniau a diweddarau materion yn ymwneud â Choetiroedd	Dal i fyny i drafod yr ymgynghoriad gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (1 yn bresennol)
1 Mai Cyfarfod Cynllun Gofodol Cymru	Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau Cynllunio	Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymatebion	Ymwybyddiaeth i ymgorffori'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn y Cynllun Datblygu Lleol
5 Mai Gweithdy Cyswllt amgylchedd Cymru	Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol	Codi ymwybyddiaeth ac egluro'r cynlluniau drafft, egwyddorion allweddol, blaenoriaethau a dyddiadau cau	Arweiniadau cadarnhaol: <ul style="list-style-type: none"> Awgrym i rannu'n graffeg gwybodaeth. Gall yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol rannu eu data ffiniau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd fel mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt wedi cytuno'i wneud (7 yn bresennol)

DYDDIAD	SECTORAU	AMCAN	FFEITHIAU A FFIGURAU (dyw presenoldeb mewn digwyddiadau ddim yn cynnwys staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru)
5 Mai Gweithdy Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth ac Ymchwil	Sut gall gwyddoniaeth fwydo'r cynlluniau drafft	<ul style="list-style-type: none"> Sut mae trosglwyddo ymchwil gwyddonol i Bolisi'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Sut mae datblygu gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol (18 yn bresennol – gwahoddwyd 85) Cynhyrchwyd adroddiad yn dilyn y digwyddiad
6 Mai Gweithdy Ardal Basn Afon, Bangor	Amrywiol	Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymatebion	Cipio cynulleidfa ehangach i drafod y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft Ac anogwyd y cynrychiolwyr i ymateb i'r ymgynghoriad (19 yn bresennol - gwahoddwyd 270) Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg. Cynhyrchwyd adroddiad yn dilyn y digwyddiad
11 Mai Cyfarfod gyda Chynllunwyr Cyngor Sir Gwynedd	Awdurdod Lleol	Cynyddu ymwybyddiaeth	Derbyniwyd adborth cadarnhaol. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd ar fin cael ei orffen, byddai'r Awdurdod yn croesawu hyfforddiant ar faterion a chynllunio'n ymwneud a dŵr (1 yn bresennol)
12 Mai Cyfarfod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri	Cynllunwyr yr Awdurdod Lleol	Cynyddu ymwybyddiaeth	Adborth cadarnhaol. (5 yn bresennol)
14 Mai Cyfarfod gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Defnyddwyr Dŵr	Gwell gweithio, Strategaeth Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.	Eglurodd Asiantaeth yr Amgylchedd sail yr asesiadau Effaith economaidd drafft. Angen gwneud yn siŵr bod y man cychwyn (senario A) yn cael ei gyfathrebu'n glir, yn ogystal â gwell eglurhad o ddiffiniadau, dulliau, bylchau. (5 yn bresennol)
15 Mai Cyfarfod Cynllun Gofodol Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdodau Lleol	Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymatebion	Ymwybyddiaeth i ymgorffori'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn y Cynllun Datblygu Lleol
27 Mai Gweithdy Amaeth,	Amaeth	I ddarparu trosolwg o Reoli'r Basn	Trafodwyd materion allweddol sy'n berthnasol i'r sector megis trochfeydd defaid, rheoli maetholion a rheoli pridd.

DYDDIAD	SECTORAU	AMCAN	FFEITHIAU A FFIGURAU (dyw presenoldeb mewn digwyddiadau ddim yn cynnwys staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru)
Coleg Gelli Aur, Llandeilo		Afon / tryledu llygredd a'r goblygiadau ar gyfer y sector amaethyddol	(13 yn bresennol – gwahoddwyd 48). Cynhyrchwyd adroddiad yn dilyn y digwyddiad
27 Mai Grŵp Rhandaliad Llywodraeth y Cynulliad	Amrywiol	Mae'r grŵp yn darparu cefnogaeth strategol i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweithredu'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar faterion polisi a chynllunio ar lefel genedlaethol	Ffocws ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â'r Fframwaith dŵr. (19 yn bresennol)
11 Mehefin Gweithdy Ymddiriedolaeth Afonydd, Gwesty'r Porth, Llandysul	Cadwraeth Pysgota	Cynyddu ymwybyddiaeth	Manylodd y gweithdy ynghylch proses hwyluso ymatebion lleol i'r Cynllun, a chynorthwyodd adnabod pynciau lleol (42 yn bresennol)
DAETH YR YMGYNGHORIAD I BEN 22 MEHEFIN 2009			

**A fydddech chi'n hoffi darganfod mwy amdanon ni,
neu am eich amgylchedd?**

Yna ffoniwch ni ar

08708 506 506 (Llun - Gwe 8-6)

e-bost

enquiries@environment-agency.gov.uk

neu ewch i'n gwefan

www.environment-agency.gov.uk

llinell frys ar gyfer digwyddiadau 0800 80 70 60 (24 awr)

rhybuddion llifogydd 0845 988 1188

Yr amgylchedd yn gyntaf: Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff a ddefnyddiwyd o'r blaen. Defnyddir sgil gynnyrch cynhyrchu pwlp a phapur ar gyfer compostio ac fel gwrtaith, ar gyfer gwneud sment ac ar gyfer cynhyrchu ynni.

